# AWDURDOD TÂN AC ACHUB
# GOGLEDD CYMRU

# SUT Y GWNAETHOM NI YN 2011-12?

# ASESIAD O BERFFORMIAD YR AWDURDOD

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Adran 1 – Cyflwyniad** | |
| Proffil o Ogledd Cymru | 2 |
| Gwneud Gwelliannau a Lleihau Risg | 5 |
| | |
| **Adran 2 – Y Cynnydd mewn perthynas ag Amcanion Gwella Penodol yn 2011-12** | |
| Asesiad o’r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn | 6 |
| | |
| **Adran 3 – Gwelliannau eraill yn 2011-12** | |
| Enghreifftiau o welliannau cyffredinol a wnaed yn ystod y flwyddyn | 37 |
| | |
| **Adran 4 – Beth a ddywedodd pobl eraill amdanom ni yn 2011-12** | |
| Archwiliad Mewnol | 39 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | 40 |
| | |
| **Adran 5 – Gwybodaeth arall** | |
| Manylion cyswllt, gwybodaeth ychwanegol ac ymyrraeth | 43 |
| Y camau nesaf mewn perthynas â chydymffurfio â’r Mesur Llywodraeth Leol | 46 |
| Ymgynghori a sut i gyfrannu | 47 |
| | |
| **Adran 6 – Crynodeb o wybodaeth am berfformiad** | |
| Dangosyddion Perfformiad 2007/08 i 2011/12 | 48 |
| | |

# ADRAN 1

## Cyflwyniad

Lluniwyd y ddogfen hon i gydymffurfio ag Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i roi, mewn un ddogfen, gyfrif am weithgarwch a pherfformiad yr Awdurdod yn 2011-12.

Mae'n darparu asesiad o'r modd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, a'i gynnydd mewn perthynas â'r Amcanion Gwella y gosododd iddo'i hun y llynedd. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o'i waith ar y cyd, a'i berfformiad mewn perthynas â dangosyddion perfformiad lleol a chenedlaethol penodol a mesurau llwyddiant.

Eleni, bydd cyhoeddiad mis Hydref yr Awdurdod yn canolbwyntio ar y llynedd yn unig. Yn wahanol i'r blynyddoedd a fu, ni fydd y cynllun gwella sy'n edrych i'r dyfodol i 2013-14 yn cael ei gyhoeddi tan ddechrau'r flwyddyn honno. Mae hyn yn unol â deddfwriaeth newydd a ddaeth ym mis Mai 2012.


**Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.**

## Proffil o Ogledd Cymru

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am yr ardal y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei hamddiffyn, ac mae'n rhoi proffil o'r amcanestyniadau o'r prif risgiau demograffig a chymdeithasol y mae angen i'r Awdurdod eu hystyried.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn un o dri awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd yn 1996 i ddarparu gwasanaethau yn ardaloedd chwech o awdurdodau unedol, sef Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ac Ynys Môn, ac mae'n gwario cyllideb refeniw flynyddol sydd oddeutu £32 miliwn.

**POBLOGAETH** Mae'r Awdurdod yn gwasanaethu poblogaeth breswyl sydd oddeutu 680,000[1], a hwnnw wedi grynhoi'n bennaf yn ardaloedd mwy diwydiannol a threfol y Gogledd-Ddwyrain ac ar hyd arfordir y Gogledd.




Ffynhonnell: Infobase Cymru

Mae'r map yn dangos lle mae'r ardaloedd mwy tenau eu poblogaeth a mwy dwys eu poblogaeth yn y Gogledd[2]. Mae'r lliwiau tywyllach yn dangos mwy o ddwysedd poblogaeth.

Ar lefel sirol, mae'r dwysedd poblogaeth yn amrywio rhwng 47 o bobl ymhob milltir sgwâr yng Ngwynedd – un o'r siroedd mwyaf tenau eu poblogaeth yng Nghymru a Lloegr – a 342 o bobl ymhob milltir sgwâr yn Sir y Fflint.

[1] 688,400 yn ôl amcangyfrif canol blwyddyn 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a 687,600 yn ôl cyfrifiad 2011.

[2] Cymerwyd y ffigurau ar adeg yr Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach 2010, a gyhoeddwyd yn Hydref 2011.




Ffynhonnell: StatsWales Tabl 003647 a Bwletin LlC SB 88/2012

INCWM Yn ôl ffigurau'r Adran Gwaith a Phensiynau, roedd canolrif incwm blynyddol pobl sy'n byw yn siroedd Gogledd Cymru yn 2011 yn amrywio rhwng £23,267 a £28,719, o'i gymharu â chanolrif o £25,157[3] yng Nghymru.

CYMWYSTERAU Roedd ffigurau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod canran y bobl sy'n byw ymhob sir yng Ngogledd Cymru heb unrhyw gymwysterau yn amrywio rhwng 9.6% a 12.7%, o'i gymharu â 12% yng Nghymru gyfan[4].


ETHNIGRWYDD: Yn ôl amcangyfrifon poblogaeth 2009[5], roedd mwyafrif helaeth poblogaeth Gogledd Cymru yn wyn (97.23%, o'i gymharu â 95.88% yng Nghymru gyfan).

HUNANIAETH GENEDLAETHOL: Yn ôl amcangyfrifon poblogaeth 2009[6], roedd y ganran o boblogaeth siroedd Gogledd Cymru a oedd yn ystyried mai Cymry oeddent yn amrywio rhwng 44% a 64% o'i gymharu â 65% sef cyfartaledd Cymru.

Y GYMRAEG: Roedd yr ymatebion i'r Arolwg Integredig o Gartrefi a gynhaliwyd yn 2010[7] yn awgrymu bod canrannau siaradwyr Cymraeg yn siroedd y Gogledd yn amrywio o 17% i dros 70%, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o fymryn o dan 25%.

OEDRAN: Mae gan boblogaeth y Gogledd, yn ôl Cyfrifiad 2011, ganran fymryn yn is o bobl yn eu hugeiniau a'u tridegau, a chanran fymryn yn fwy o bobl yn eu chwedegau, eu saithdegau a'u hwythdegau na Chymru gyfan. Ym mis Mawrth 2011, roedd dros 97,000 o bobl dros 70 mlwydd oed yn byw yn y Gogledd, gan gynnwys 159 o bobl wedi cyrraedd can mlwydd oed.

[3] Ffynhonnell: Infobase Cymru.
[4] Ffynhonnell: Infobase Cymru.
[5] StatsWales - Tabl 014499
[6] StatsWales - Tabl 005501
[7] StatsWales - Tabl 005502




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011. StatsWales - Tabl 040221

ANABLEDD: Yn ôl arolwg o boblogaeth 2009[8], amcangyfrifir bod rhyw fath o anabledd gan tua 16% - 22% o boblogaeth Gogledd Cymru, o'i gymharu â mymryn dan 22% yng Nghymru gyfan.

CYFEIRIADEDD RHYWIOL: Roedd ymatebion i'r Arolwg Integredig o Gartrefi a gynhaliwyd yn 2011[9] yn awgrymu bod rhwng 92% a 96% o boblogaeth Gogledd Cymru yn heterorywiol, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 94%.

ARWYNEBEDD: Mae i Ogledd Cymru arwynebedd sydd tua 6,172 cilometr sgwâr, a rhyw 400 cilometr (250 milltir) o arfordir.

TRAFNIDIAETH: Y prif gysylltiadau trafnidiaeth ar y ffyrdd yw'r A55, yr A5, yr A483, yr A487 a'r A470. Mae cyfanswm o 9,735 km o ffyrdd A, B, C ac is-ffyrdd yn yr ardal. Swmp y traffig yn 2010 oedd 6.49 biliwn o gilometrau cerbydau.

[8] StatsWales - Tabl 005510
[9] StatsWales - Tabl 025006

## Gwneud Gwellliannau a Lleihau Risg

Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi eu categoreiddio'n 'Awdurdodau Gwella Cymreig', ac maent yn dod dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 o ran dilyn proses flynyddol o osod a chyflawni amcanion gwella lleol.

Wedi sganio'r gorwel ac asesu risg yng Ngogledd Cymru, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi canfod rhai materion strategol y mae'n bwriadu mynd i'r afael â nhw trwy'r broses hon o gynllunio gwelliannau.

Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno asesiad o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag Amcanion Gwella'r Awdurdod ar gyfer 2011-12.

# ADRAN 2

## Y CYNNYDD MEWN PERTHYNAS AG AMCANION GWELLA PENODOL YN 2011-12

### AMCANION NEWYDD Y GWASANAETH AR GYFER 2011-12 A'R TU HWNT

Yn unol â'r dyddiadau tefynol a ddisgwylid, fe gyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella ar gyfer 2011-12 ym mis Hydref 2010.

Yn wyneb yr angen i leihau'r gyllideb, penderfynodd yr Awdurdod, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, i rewi'r gyllideb refeniw ar £32 miliwn dros y tair blynedd nesaf, sydd mewn gwirionedd yn golygu sicrhau arbediad arian parod o £2.45 miliwn - a gostyngiad o 7.5% - i'w rannu'n gyfartal dros y tair blynedd. Byddai hyn yn golygu gostyngiad o £800,000 ymhob blwyddyn yn 2011-12, 2012-13 a 2013-14.

Felly, cyflwynwyd tri o amcanion newydd i'r gwasanaeth (A, B ac C) ar gyfer y flwyddyn gyda'r nod o gynnal neu wella lefelau gwawsanaeth i'r cyhoedd ond heb gynyddu'r gyllideb.

### CYNLLUNIAU'R GWASANAETH

Er mwyn gofalu bod yr amcanion yn cael eu cyflawni fel y bwriadwyd yn 2011-12, mae agweddau wedi eu neilltuo (gyda chylidebau pan fo hynny'n berthnasol) i gynlluniau gwasanaethau adrannol. Caiff y cynlluniau hyn eu monitro bob chwarter i sicrhau bod y camau a'r gwariant arfaethedig am y flwyddyn ar y trywydd iawn.

### MESURAU A DANGOSYDDION PERFFORMIAD LLEOL

Mae'r tudalennau canlynol yn cyflwyno amcanion yr Awdurdod ar gyfer 2011-12, esboniad cryno o'r rheswm pam y mabwysiadwyd pob un, beth yr ydym yn bwriadu ei wneud i'w cyflawni, a ph'un ai llwyddon ni ai peidio.

| Amcan Gwella 1 | (Effeithiolrwydd Strategol) |
|---|---|

| Amcan | Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi. |
|---|---|
| Rheswm | Mae diogelwch tân cymunedol yn un o flaenoriaethau pennaf Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Er bod union nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau mewn anheddau yn yr ardal yn isel, mae effaith pob un yn fawr. Gwnaed cynnydd da dros y degawd diwethaf yn gostwng nifer y tanau damweiniol mewn anheddau, ond mae'n anodd cael gostyngiad tebyg yng nghyfradd y marwolaethau a'r anafiadau. O'i chymharu ag ardaloedd eraill, mae cyfradd yr achosion yn dal yn uwch nag y gallai fod. |
| Canlyniad a ddisgwylir | Mae pobl yn disgwyl bod yn ddiogel gartref. Gyda'r gefnogaeth a'r cyngor cywir, gall pobl eu hamddiffyn eu hunain rhag tanau damweiniol trwy atal tân rhag cychwyn yn y lle cyntaf a thrwy wybod sut i ymateb yn sydyn a chywir os bydd un yn digwydd.<br>Pan fo hynny wedi methu, dylai pobl fod yn hyderus y bydd y gwasanaeth tân ac achub yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i'w hachub ac i gyfyngu ar y difrod i'w heiddo. |
| Camau yn yr arfaeth | 1. Cyflwyno'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol/Lleihau Risg sy'n cynnwys:<br>• Darparu Cyngor Diogelwch Cymunedol<br>• Targedu a theilwra Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref<br>• Darparu offer yn rhad ac am ddim yn ôl yr angen a asesir.<br>2. Asesiad gan gymheiriad mewn perthynas â'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol.<br>3. Monitro'n barhaus yr achosion o danau mewn anheddau.<br>4. Cael cyfranogiad sefydliadau sy'n bartneriaid inni wrth ddysgu gwersi o ganlyniad i danau mewn anheddau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd eu bod yn digwydd eto.<br>5. Defnyddio gwybodaeth i ragweld ac atal tanau mewn anheddau.<br>6. Datblygu safonau cyrraedd lleol i gefnogi ymateb cyflym a chywir i danau mewn anheddau.<br>7. Cael mwy o orsafoedd tân y system dyletswydd ar gael yn ôl y galw i fod ar gael trwy reoli prosesau recriwtio yn fwy effeithlon. |
| Mesurau llwyddiant | • Gostyngiad yn nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau<br>• Cynnydd yng % y bobl a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth o danau damweiniol mewn anheddau<br>• Cynnydd yng % y tanau damweiniol mewn anheddau a gyfyngwyd i un ystafell<br>• Gostyngiad yng % y tanau mewn anheddau lle nad oedd larwm mwg<br>• Cynnydd yng % yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn Cartref a gynhaliwyd yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni<br>• Cwblhau asesiad gan gymheiriaid mewn perthynas â'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol<br>• Gweld llai o orsafoedd tân y system dyletswydd ar gael yn ôl y galw heb fod ar gael oherwydd nad oes digon o griw<br>• Datblygu safon cyrraedd lleol, a mesur gwaelodlin yn ei erbyn. |

**Fe wnaethom ni gynllunio i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.**

Fe wnaethom ni berfformio'n dda ar y cyfan; gan barhau i dalu sylw i waith ataliol, roedd llai o farwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau, er gwaethaf cynnydd yn ein poblogaeth a nifer yr anheddau yng Ngogledd Cymru.

**CAMAU YN YR ARFAETH:**

**1. Cyflwyno Strategaeth Diogelwch Cymunedol/Lleihau Risg:**

- **Darparu Cyngor Diogelwch Cymunedol**
- **Targedu a theilwra Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref**
- **Darparu offer yn rhad ac am ddim yn ôl yr angen a asesir.**

Fe wnaethom ni barhau i gyflwyno Strategaeth Diogelwch Risg Cymunedol 2009-12 a oedd yn ymwneud â hybu ymddygiad diogel, sef trwy atal tân rhag digwydd yn y lle cyntaf a gwybod sut i ymateb yn gyflym a chywir os bydd un yn digwydd. Rydym wedi darparu cyngor diogelwch cymunedol, targedu a theilwra archwiliadau diogelwch tân cymunedol a darparu offer yn rhad ac am ddim yn ôl yr angen a asesir.

Ledled y Gogledd fe aeth criwiau'r ochr weithredol a staff arbenigol megis gweithwyr cefnogi cartrefi ac addysgwyr â'r neges atal tân allan i'r gymuned, i unigolion, i weithleoedd ac i ddigwyddiadau arbennig.

Yn 2007, fe wnaethom ni gynnal adolygiad o farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau – fe wnaeth adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân ganfod ffactorau sy'n cyfrannu at farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau yng Ngogledd Cymru. Mae rhai bywydau yn achosi mwy nag un farwolaeth, ac mewn sawl achos ni ellir rhagweld canlyniadau trasig o'r fath, ond mae ymchwil wedi dangos bod marwolaethau oherwydd tân yn aml yn gysylltiedig â rhai nodweddion.

Mae'r ffactorau cyfrannol yn parhau i chwarae'r rhan flaenaf wrth anelu gweithgarwch diogelwch tân er mwyn atal tanau. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar weithio gydag asiantaethau gwirfoddol a gofal i ganfod y bobl sydd fwyaf mewn perygl, a hynny er mwyn targedu cyngor a chefnogaeth diogelwch yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn parhau i fod y dull mwyaf effeithiol o gyflwyno diogelwch tân yn y cartref, ac yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd 28,472 ohonynt. Parhaodd ein dull effeithiol o dargedu'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl, ac fe wnaethom ni ddefnyddio ein cytundebau rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau sy'n bartneriaid inni i gysylltu â'r bobl fwyaf bregus yn y gymuned. O blith yr archwiladau a gynhaliwyd, cafodd 8,755 eu gwneud yn dilyn atgyfeiriad gan sefydliad sy'n bartner inni (atgyfeiriadau asiantaethol), gan ein cynorthwyo i gadw'r grwpiau mwyaf bregus yn fwy diogel gartref – mae hyn yn fwy na'r targed o gynnal 7,500 o archwiliadau yn dilyn atgyfeiriadau asiantaethol.

Buom hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas y Byddar Gogledd Cymru i gynorthwyo i amddiffyn trigolion byddar a'r rhai trwm eu clyw. Hyfforddwyd staff o'r Gymdeithas i ddarparu cyngor a gwybodaeth am ddiogelwch i'w haelodau trwy

archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn rhad ac am ddim, gan wneud hyn trwy gyfrwng iaith arwyddion neu gyda dehonglwr. Darparwyd larymau mwg arbennig hefyd.

Yn Ionawr 2012, dechreuodd y Gwasanaeth dreialu dull newydd o gynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref – gan symud i gyfeiriad cael criwiau i gyflwyno diogelwch cymunedol ac archwiliadau yn syth ar ôl digwyddiad yn hytrach na rhoi enwau ar restr a dychwelyd wedyn.

Roedd y cyfanswm o 28,472 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gyflwynwyd fymryn yn llai na'r targed o 30,000. Ond roedden ni'n dal wedi gallu canolbwyntio'n hymdrechion ar gynnal archwiliadau yn dilyn atgyfeiriadau risg uchel gan asiantaethau, ac fe wnaethom fwy na'r targed yn hynny o beth.

O ystyried 2012/13, rydym ni'n dal yn ceisio cyrraedd y lefel staffio llawn a hefyd yn sicrhau bod y dull newydd o gynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn cael ei integreiddio'n llwyr, gan ymdrechu i gyrraedd ein targedau blynyddol.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ni ddarparu teclynnau diogelwch trwy broses yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, gan gynnwys pecynnau dillad gwely a blancedi sy'n gwrthsefyll tân, amseryddion popty, ceblau gweddog amlsoced, a pheiriannau ffrio saim dwfn yn lle sosbenni saim. Er mwyn gofalu bod yr offer yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf wrth dargedu'r bobl fwyaf bregus, ac oherwydd y goblygiadau ariannol o brynu offer ymrraeth, bu'r Gwasanaeth yn mireinio ei ganllawiau ar offer ymyrraeth. Da oedd gweld bod nifer y tanau oherwydd sobenni saim wedi gostwng 50% ers 2009/10, ac felly fe wnaethom ni roi'r gorau i ddosbarthu peiriannau saim dwfn ar ddiwedd y flwyddyn, gan ganiatáu inni ailgyfeirio adnoddau gwerthfawr.

Fe wnaethom ni wneud rhagor o waith ar ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol, yn arbennig trwy dargedu'r ymgyrchoedd diogelwch tân, ac erbyn hyn mae'n offeryn cyfathrebu sydd wedi ennill ei blwyf er mwyn lledaenu'r negesuon atal tân. Rydym hefyd wedi bod yn anelu'r negeseuon atal tân at grwpiau bregus gan gynnwys y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl – datblygwyd prosiect peilot yn ymgorffori pecyn cymorth ar gyfer ymarferwyr iechyd, a chaiff ei roi ar waith yn ystod 2012/13.

Buom yn cydweithio ag aelodau'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru ar ymgyrchoedd a digwyddiadau diogelwch tân er mwyn cael yr effaith orau. Hefyd, bu'r Gwasanaeth yn rhoi cynghorion diogelwch – yn ymwneud â thanau a gwenwyn carbon monocsid – i garafanwyr a gwersyllwyr yn dilyn digwyddiadau mewn parciau gwyliau.

**2. Asesiad gan Gymheiriad mewn perthynas â'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol.**

Cafodd Strategaeth Lleihau Risg Cymunedol 2009-2012 ei chyflwyno i sicrhau bod ein dull o ymdrin â diogelwch cymunedol a risg yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub yn ogystal ag adlewyrchu'r blaenoriaethau a ganfuwyd yn lleol trwy adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân i farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau.

Cynhaliwyd asesiad gan gymheiriaid mewn perthynas â'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol, ac roedd y Gwasanaeth yn fodlon â'i ddull o ymdrin â Diogelwch Cymunedol – sef symud ymlaen â'r blaenoriaethau lleol ar ffurf yr argymhellion yn

adroddiad Tasglu'r Prif Swyddog Tân i farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau a'r adolygiad wedi hynny.
Caiff y Strategaeth Diogelwch Cymunedol ei hadolygu yn 2012/13, gyda'r strategaeth flaenorol yn cael ei hymestyn yn y cyfamser.


**3. Mynd ati'n barhaus i fonitro achosion o danau mewn anheddau.**

Cafwyd gwelliant pellach o ran cael gwybodaeth am ddigwyddiadau yn y Gwasanaeth, gan gefnogi Rheolwyr Diogelwch Cymunedol i fonitro manylion y tanau mewn anheddau yn barhaus, ac yna i sicrhau ein bod yn cynnal gweithgarwch priodol ar ôl tân; ar ôl tân mewn annedd byddwn yn cynorthwyo'r preswylwyr i wella diogelwch yn y cartref yn y dyfodol, gan dargedu'r risgiau penodol sydd yno a rhoi'r teclynnau mwyaf priodol yn seiliedig ar angen.

Ers 2001/02 mae'r tueddiad cyffredinol yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau wedi bod am i lawr, ac mae'r ffigwr diweddaraf (474) 22% yn is na'r 607 o danau ddegawd yn ôl. Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod y cyfuniad o weithgarwch atal tanau a wneir gennym yn cael effaith gadarnhaol, a bod gostynigad yn nifer y tanau y gellir eu hosgoi. Yn y blynyddoedd mwyaf diweddar rydym yn sylwi bod y gostyngiad yn arafu, gan adael efallai y tanau nad oes modd eu hosgoi, neu'r rhai yng nghartrefi trigolion sy'n arbennig o 'anodd eu cyrraedd', y rhai sydd o bosib yn anfodlon cael cysylltiad â ni, neu'r rhai nad ydynt yn barod i dderbyn ein gweithgareddau atal; mae'n anodd bod yn sicr ynghylch hyn a byddwn yn parhau i fonitro tanau mewn anheddau yn rheolaidd.

Yn Ebrill 2009 fe wnaeth y Llywodraeth gyflwyno system electronig genedlaethol newydd ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub i'w galluogi i gofnodi gwybodaeth am ddigwyddiadau – mae'r System Cofnodi Digwyddiadau yn ein galluogi i gasglu mwy o fanlynion am ba mor ddifrifol yw'r anafiadau y mae'r tanau'n eu hachosi. Mae'r siart isod yn dangos y gostyngiad cyffredinol yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau, a niferoedd isel yr anafiadau a gafwyd yn y tanau hynny. Gelwn fod nifer yr anafiadau mwy difrifol wedi gostwng ers 2009, a da yw hynny. Mae niferoedd y mân anafiadau a'r cymorth cyntaf a roddwyd yn y fan a'r lle yn parhau'n isel er nad oes tueddiad pendant am i lawr nac i fyny.

Tanau damweiniol mewn anheddau ac Anafusion Anangheuol




Yng Nghymru ar ei hyd yn 2011/12, fe wnaeth tân ladd llai nag 1 person ac anafu llai nag 8 o bobl am bob 100,000 o bobl.

Yng Ngogledd Cymru yn 2011-12, ni chofnodwyd marwolaethau tân o ganlyniad i danau mewn eiddo annomestig, ond collodd 6 o bobl eu bywydau oherwydd tanau yn y cartref – eiddo domestig; digwyddodd yr holl danau hyn yn ddamweniol, ac ni fu unrhyw farwolaethau oherwydd tanau bwriadol. Yn dilyn digwyddiadau mewn parciau gwyliau, rhoddodd y Gwasanaeth gynghorion diogelwch am wenwyn carbon monocsid, yn ogystal â thanau, i garafanwyr a gwersyllwyr.

O'r tanau a ddigwyddodd mewn anheddau, rydym wedi ein calonogi bod mwy o bobl yn berchen ar larymau mwg i roi rhybudd cynnar fod yna dân. O ran y tanau mewn anheddau yr aethom atynt y llynedd, roedd larwm mewn 85% o'r anheddau. Gellir gweld hyn yn y siart isod.

Tân mewn anheddau: Presenoldeb Larymau Mwg





Mae nifer y cartrefi a'r mathau o ddeiliadaeth yng Ngogledd Cymru yn newid. Mae nifer y cartrefi yn cynyddu, ynghyd â chyfran y cartrefi lle nad oes ond un person yn byw, ac mae hyn yn fwy o her o ran cyflwyno'r neges diogelwch tân; mae 'bod ar eu pennau eu hunain' ar adeg y tân mewn cartref, er nid o reidrwydd yn byw ar eu pennau eu hunain, wedi ei nodi fel yr un 'ffactor cyfrannol' mwyaf arwyddocaol i farwolaethau oherwydd tanau damweiniol yn y cartref yng Ngogledd Cymru.

Gyda rhybudd cynnar gan larwm mwg sy'n gweithio, a chynllun dianc wedi ei ymarfer a'i deilwra i anghenion unigol preswylwyr yr annedd, y gall pobl gael y siawns orau i ddianc yn ddianaf o dân mewn annedd heb orfod dibynnu ar gael eu hachub gan griw tân.

Calonogol yw gweld bod 80% o breswylwyr tân mewn annedd wedi gallu mynd allan eu hunain a heb gael unrhyw anaf, mae hyn yn dangos eto yr effaith gadarnhaol y mae ein gweithgarwch diogelwch tân yn ei chael, a'r lefelau uchel o fod yn berchen ar

larymau mwg. Llai nag 20% o breswylwyr ar adeg tân mewn annedd oedd angen cymorth gan ein criwiau i ddod allan neu wedi cael niwed. Yn y rhan fwyaf o achosion, cyfyngwyd y niwed hwn i'r angen am gymorth cyntaf yn y fan a'r lle ar gyfer anafiadau megis sioc neu gael eu llethu gan fwg. Dangosir y ffigurau hyn yn y siart isod.

Canran y bobl mewn tanau damweiniol mewn anheddau a ddihangodd yn ddianaf a heb gymorth




**4. Cyfranogiad sefydliad sy'n bartner inni wrth ddysgu gwersi o ganlyniad i danau mewn anheddau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd ei fod yn digwydd eto.**

Parhaoddd ein gwaith ataliol ym maes diogelwch tân gydag asiantaethau sy'n bartneriaid inni, ac yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ni lofnodi protocolau rhannu gwybodaeth ar y cyd â hyd yn oed fwy o bartneriaid, er enghraifft sefydliadau gwirfoddol. Mae rhannu gwybodaeth yn gymorth inni gael cysylltiad â phobl sy'n arbennig o fregus ac mewn mwy o berygl. Fe wnaethom ni ledaenu'r ddarpariaeth archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a hyfforddi rhai o'n partneriaid i gynnal yr archwiliadau ar adeg eu dyletswyddau arferol, gan gynnwys ein gwaith mewn partneriaeth â Chymdeithas y Byddar Gogledd Cymru.

Mae llosgi bwriadol yn gallu bod yn broblem mewn rhai cymunedau, a pharhaodd y Gwasanaeth i gydweithio ag asiantaethau gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Prawf i geisio lleihau llosgi bwriadol. Fe wnaethom ni weithio gyda'r partneriaid hyn ar Gynadleddau Achos yn ymwneud ag unigolion penodol sydd mewn perygl neu sy'n achosi perygl i eraill i rannu gwybodaeth, nodi unrhyw broblemau, a chytuno ar gynllun ar gyfer ymdrin â phryderon am y perygl o dân, gan ddarparu teclynnau diogelwch tân priodol megis blychau postio wedi eu selio.

**5. Defnyddio gwybodaeth i ragweld ac atal tanau mewn anheddau.**

Ar y cyfan, roedd nifer y tanau mewn anheddau yng Ngogledd Cymru yn gymharol isel, gyda'r Gwasanaeth yn mynd at 1 – 2 o ddigwyddiadau y dydd ar gyfartaledd yn 2011/12. Mae'r niferoedd cymharol isel hyn yn golygu ein bod, er na allwn ragweld pryd y bydd tân mewn annedd yn digwydd, yn gallu edrych ar y rhesymau pam y cychwynnodd y tanau, a gallwn seilio ein negeseuon diogelwch allweddol ar hynny a chodi ymwybyddiaeth.

Cynlluniwyd ymgyrchoedd diogelwch tân mewn modd systematig, gyda'r Gwasanaeth yn lansio nifer o ymgyrchoedd yn ystod y flwyddyn gan gynnwys diogelwch tân mewn perthynas a choginio, ysmygu, canhwyllau a thrydan. Mae natur dymhorol digwyddiadau megis tanau simnai yn ystod y misoedd oer hefyd wedi arwain at ymgyrch bwrpasol.

Fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd ymateb i risgiau a fu yn ystod y flwyddyn, er enghraifft yn dilyn digwyddiadau mewn parciau gwyliau – defnyddiodd y Gwasanaeth hyn fel cyfle i roi cyngor pwysig am ddiogelwch i garafanwyr a gwersyllwyr mewn perthynas ag atal tanau a gwenwyn carbon monocsid. Mae twristiaeth yn dal yn boblogaidd yng Nghymru ac fe allai fynd yn fwyfwy poblogaidd, gyda phobl yn dewis cael gwyliau'n nes at adref yn hytrach na gwyliau mwy costus dramor.

**6. Datblygu safon cyrraedd lleol i gefnogi ymateb cyflym a chywir i danau mewn anheddau.**

Yn ystod y flwyddyn bu'r Gwasanaeth yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau ar safon cyrraedd lleol. Yna, cyhoeddwyd Cylchlythyr y Gwasanaeth Tân yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i symud ymlaen â'r safon yn 2012/13 er mwyn cwrdd â'r dyddiad gweithredu yn Ebrill 2013.

**7. Gwella argaeledd gorsafoedd tân y System ar gael yn ôl y Galw trwy reoli prosesau recriwtio yn fwy effeithlon.**

Mae'r Gwasanaeth wedi creu rôl brosiect ran amser i gydlynu'r adolygiad o'r trefniadau ar gyfer recriwtio a chadw diffoddwyr tân ar System y Ddyletswydd ar gael yn ôl y Galw. Er enghraifft, cymryd camau ymarferol i godi'r lefelau staffio a chadw – amrediad fwy o gontractau, a gwelliannau i'r broses recriwtio a dethol – gan wella argaeledd y gorsafoedd maes o law. Mae'r Gwasanaeth wedi gweld rhywfaint o ymateb, ond bydd yn parhau i fonitro ac adolygu hyn.

Hefyd ar gyfer ymdrin ag argaeledd, mae'r Gwasanaeth wedi creu swydd newydd sef Rheolwr Argaeledd Adnoddau, a sicrhawyd trwy ailstrwythuro swyddogion y Gwasanaeth. Pwrpas y swydd oedd mynd ati'n well i reoli argaeledd adnoddau o ddydd i ddydd, a sicrhau ein bod yn cadw cynifer ag y bo modd o'n gorsafoedd ar agor trwy symud criwiau o gwmpas i lenwi bylchau. Mae adolygiad hefyd yn mynd ymlaen ar ffyrdd i gael gwell tystiolaeth o ba mor effeithiol ydym ni yn y maes hwn.

Mae adolygiad o'r gefnogaeth weinyddol ar gyfer gorsafoedd System y ddyletswydd ar gael yn ôl y Galw wedi tynnu sylw at yr angen am swyddi pwrpasol er mwyn cefnogi rheolwyr y System; rhoddir hyn ar waith yn 2012/13 trwy ailddyrannu adnoddau.

| **Amcan Gwella 2** | **(Ansawdd Gwasanaethau)** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Amcan | **Cynorthwyo i leihau'r risg o danau'n cychwyn yn ddamweiniol mewn eiddo annomestig fel bod gweithgareddau arferol yn gallu parhau ac nad oes perygl i fywydau'r bobl sy'n ymweld ac yn gweithio yno.** |
| Rheswm | Gyda dyfodiad y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ddiogelwch tân mewn adeiladau perthnasol i reolwyr y safleoedd hynny. Roedd hyn yn golygu bod y gwasanaeth tân ac achub yn newid o fod yn gorff ardystio i fod yn awdurdod gorfodaeth. Gan ddisgwyl cyfnod o gyfyngiadau economaidd, mae'n bosibl y bydd cynnydd yn nifer y tanau mewn eiddo annomestig sydd wedi ei feddiannau a heb ei feddiannu. |
| Canlyniad a ddisgwylir | Mae pobl yn disgwyl bod yn ddiogel mewn unrhyw eiddo annomestig megis adeiladau cyhoeddus, gweithleoedd, gwestai, siopau a chanolfannau chwaraeon. Mae angen i gymunedau hefyd deimlo'n hyderus na fydd tân yn difrodi ysgolion, ysbytai, busnesau, cyfleusterau diwylliannol neu hamdden, neu'n achosi i sylweddau peryglus gael eu rhyddhau i'r amgylchedd. |
| Camau yn yr arfaeth | 1. Parhau i ddatblygu rhaglen wedi ei thargedu o archwiliadau o drefniadau diogelwch tân mewn eiddo annomestig gan ddefnyddio gwybodaeth leol a gwybodaeth sydd ar y System Rheoli Cofnodion.<br>2. Ymateb cyflym a chywir i danau mewn eiddo annomestig gan griwiau tân sydd â'r wybodaeth ar derfynellau data symudol wedi eu cysylltu â chofnodion canolog am y peryglon, a gwybodaeth arall. |
| Mesurau llwyddiant | • Gostyngiad yn nifer y tanau mewn eiddo annomestig.<br>• Cynnydd yn nifer y cardiau gwybodaeth gweithredol a gwblhawyd.<br>• Cynnydd yn nifer yr ymweliadau risg â safleoedd risg. |

**Fe wnaethom ni gynllunio i leihau'r risg o danau damweiniol mewn eiddo annomestig fel bod gweithgareddau arferol yn gallu parhau ac nad oes perygl i fywydau'r bobl sy'n ymweld ac yn gweithio yno.**

Cafodd y Gwasanaeth flwyddyn lwyddiannus ar y cyfan. Mae tueddiad am i lawr yn nifer y tanau damweiniol mewn eiddo annomestig, er bod parhad yn y cynnydd mewn eiddo annomestig yng Ngogledd Cymru; ni fu'r un farwoaleth o ganlyniad i'r tanau hyn, ac mae nifer yr anafiadau wedi parhau'n gyson isel.

Yn Hydref 2006, daeth y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 i rym. Gyda dyfodiad y gorchymyn hwn newidiodd rôl yr Awdurdod Tân ac Achub i fod yn un sy'n gorfodi yn hytrach nag yn roi tystysgrifau tân, felly mae ffocws y Gwasanaeth wedi newid yn fwy diweddar i flaenoriaethu safleoedd hysbys i gyflawni archwiliad ffurfiol o'u trefniadau diogelwch tân.

Mae gan y Gwasanaeth drefn eglur yn ei lle ar gyfer casglu gwybodaeth ar gyfer yr ochr weithredol, o adnabod safleoedd sydd angen ymweliadau, asesu a chofnodi risgiau penodol, yna cael yr wybodaeth hon i fod ar gael i'r criwiau. Safleoedd


masnachol yw'r rhain yn gyffredinol, yn hytrach nag anheddau, petai tân yn digwydd byddai'n bosibl iddo achosi risg difrifol. Er enghraifft, strwythurau anarferol a chymhleth neu lle gellir cael deunyddiau peryglus efallai.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ni barhau i gasglu gwybodaeth, ac erbyn hyn mae gennym wybodaeth weithredol am bron i 13,000 o safleoedd yng Ngogledd Cymru. Rydym yn cynnal 770 o archwiliadau diogelwch bob blwyddyn, gan lenwi cardiau gwybodaeth weithredol wedi hynny fel y bo'n briodol. Fe wnaethom ni hefyd ailstrwythuro staff yn ystod y flwyddyn, ac mae hynny'n ein rhoi mewn sefyllfa dda i gynyddu'r gwaith atal tanau a gorfodaeth yn y dyfodol.

Mae dyfodiad Terfynellau Data Symudol newydd wedi rhoi mwy o wybodaeth ar gael i griwiau yn ein fflyd o gerbydau brys.

Mae'r siart isod yn dangos y tueddiad am i lawr yn nifer y tanau damweiniol mewn eiddo annomestig, a'r cynnydd parhaus yn nifer yr eiddo annomestig yng Ngogledd Cymru.

Tanau damweiniol mewn Eiddo Annomestig a'r Bobl dan Sylw




Roedd y Gwasanaeth yn dal i gofio y gallai'r hinsawdd ariannol heriol olygu bod mwy o fusnesau'n mynd yn wag, neu efallai fod busnesau a thrigolion, fel ei gilydd, yn gallu hepgor pethau nad ydynt yn 'hanfodol', megis profi, cynnal a chadw ac uwchraddio hen systemau trydanol er enghraifft – sef pethau a allai gynyddu'r perygl o dân. Nid yw hyn i'w weld wedi digwydd yn ystod y flwyddyn, ond bydd y Gwasanaeth yn parhau i fonitro hyn.

| **Amcan Gwella 3** | **(Ansawdd Gwasanaethau)** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Amcan | **Cynorthwyo i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan argyfyngau nad ydynt yn danau, megis llifogydd, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a digwyddiadau cemegol.** |
| Rheswm | Mae'r gwasanaeth tân ac achub yn ymateb i amrywiaeth eang o argyfyngau nad ydynt yn danau, a hynny gyda lefel uchel o arbenigedd technegol ac offer arbenigol. Mae llifogydd a digwyddiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r tywydd yn arbennig o gyffredin yn y gaeaf, ac mae gwrthdrawiadau ar y ffyrdd yn fwy cyffredin na thanau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r posibilrwydd o gael digwyddiadau cemegol yn bresennol mewn adeiladau ac wrth gael eu cludo. |
| Canlyniad a ddisgwylir | Amgylchedd mwy diogel, pan fo maint difrod strwythurol a'r achosion o niwed i bobl yn cael eu leihau gan wasanaeth achub sydd â'r sgiliau a'r offer cywir. |
| Camau yn yr arfaeth | 1. Parhau i weithio'n rhyngasiantaethol (e.e. gydag Asiantaeth yr Amgylchedd), a chymryd rhan weithredol yn y Fforwm Cydnerthedd Lleol.<br>2. Parhau i gymryd rhan mewn cynlluniau ar gyfer gwella diogelwch ar y ffyrdd, megis Pass Plus Cymru, y Cynllun Addysg Moduro a'r Arddangosiadau Ardrawiadau.<br>3. Datblygu dull o broffilio gwrthdrawiadau ar y ffyrdd yng Ngogledd Cymru er mwyn cefnogi a gwella'r strategaeth er mwyn lliniaru eu heffeithiau.<br>4. Datblygu dangosyddion perfformiad lleol, a mesur gwaelodlin yn ei erbyn, er mwyn cefnogi gwelliannau yn y maes hwn.<br>5. Parhad yn y cynnydd o gofnodion cywir am ddeunyddiau peryglus sydd ar safleoedd. |
| Mesurau llwyddiant | • Datblygu a chyflwyno dangosyddion perfformiad lleol sy'n cefnogi gwelliant amlwg mewn effeithiolrwydd wrth ymateb i argyfyngau nad ydynt yn danau. |

**Fe wnaethom ni gynllunio i gynorthwyo i leihau'r perygl a'r difrod a achosir gan argyfyngau nad ydynt yn danau, megis llifogydd, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, a digwyddiadau cemegol.**

Gwnaethpwyd cynnydd gan y Gwasanaeth eleni. Trwy barhau i gydweithio ag asiantaethau eraill, gan hyrwyddo ymddygiad diogel a'n gwneud ein hunain yn fwyfwy parod, mae hyn wedi parhau i greu amgylchedd mwy diogel. Bu gostyngiad yn nifer yr argyfyngau nad ydynt yn danau, a gwneir gwaith i gael gwell tystiolaeth o ba mor effeithiol ydym ni wrth ymateb i'r digwyddiadau hyn.

Yn statudol, y Gwasanaeth yw'r awdurdod arweiniol ym maes atal tân, ond yr Heddlu a'r asiantaethau amgylcheddol sydd mewn perthynas â gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a llifogydd, gyda'r Gwasanaeth tân ac achub yn cynorthwyo i ymateb i argyfyngau o'r

fath. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cydweithio wedi tynnu sylw at y manteision sydd o ganlyniad i gael y gwasanaeth tân ac achub yn cefnogi asiantaethau eraill mewn rôl ataliol, yn bennaf oherwydd y risg cysylltiedig i fywydau, a'r gwaith y mae hyn wedi ei olygu inni.

Nid ydym wedi cwblhau'r gwaith o ddangos tystiolaeth o'n heffeithiolrwydd wrth ymateb i argyfyngau nad ydynt yn danau – mae llawer o ddigwyddiadau'n ymwneud â'r hinsawdd a dim ond yn anuniongyrchol y gallwn ddylanwadu arnynt.

Rydym yn cydnabod y bydd y tywydd yn cael effaith ar lefelau rhai digwyddiadau, er enghraifft llifogydd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cwblhau rhaglen sylweddol ar amddiffyn rhag llifogydd yn Nyffryn Conwy, gan roi mwy o amddiffyniad i lawer o safleoedd a fu o'r blaen yn agored i lifogydd mewn tywydd garw, a bu hyn yn ei dro yn gymorth i'r Gwasanaeth fireinio mwy ar ei ymateb i ddigwyddiadau o'r fath. Fe aethom at gryn dipyn yn llai o ddigwyddiadau'n ymwneud â llifogydd yn 2011/12, ac mae angen rhagor o waith y flwyddyn nesaf i gael gwell tystiolaeth o'n heffeithiolrwydd wrth ymateb i'r digwyddiadau hyn.

Parhaodd y Gwasanaeth i gymryd rhan yn y Fforwm Cydnerthu Lleol, a chymryd rhan mewn ymarferion amlasiantaethol yn ystod y flwyddyn. Yn Ymarferiad Gwyniad, daeth ymatebwyr i argyfyngau o bob rhan o Gymru at ei gilydd yn y Bala ar gyfer yr ymarferiad hwn ar lifogydd mawr ac er mwyn ymarfer a phrofi ein sgiliau cydweithio.

Yn ymuno â ni roedd y ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru, Heddlu Gogledd Cymru, yr RNLI, yr Awyrlu – Chwilio ac Achub, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Gwynedd, Ymddiriedolaeth y GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Cymdeithas Achub Mynydd Gogledd Cymru a HART (*Ambulance Hazardous Area Response Team*) ogledd-orllewin Lloegr.

Roedd cysylltiad rhwng Ymarferiad Gwyniad ag ymarferiad mawr ar argyfwng llifogydd, sef Exercise Watermark, a gynhaliwyd drwy Gymru a Lloegr i brofi ymatebion cenedlaethol a rhanbarthol i lifogydd eithafol o afonydd, y môr, cronfeydd dŵr, dŵr daear a dŵr wyneb - gan ddwyn ynghyd gyrff y llywodraeth, busnesau, a chymunedau lleol i dreialu ymatebion i amrywiaeth o sefyllfaoedd a allai ddigwydd ar adeg llifogydd.

Rydym hefyd wedi gwella ein cysylltiadau ag Asiantaeth yr Amgylchedd, ac erbyn hyn rydym yn derbyn rhag-rybudd o ddigwyddiadau posib oherwydd tywydd garw. Gellir defnyddio'r rhybudd cynharach hwn fel cymorth i gynllunio rhag cynnydd yn y galw ar y Gwasanaeth a'n hadnoddau.


Roedd y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr wedi cael ei sefydlu i gynorthwyo Asiantaeth Gwylwyr y Glannau gyda digwyddiadau yn ymwneud â thân, peryglon cemegol a digwyddiadau diwydiannol ar y môr. Roedd Gwasanaethau Tân ac Achub y Gogledd a'r Canolbarth a'r Gorllewin ymhlith 15 o 39 o wasanaethau tân ac achub arfordiol a oedd yn ymrwymo 650 o ddiffoddwyr tân i gefnogi'r Grŵp. Yn dilyn asesiad risg, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ym mis Medi 2011 y byddai cyllid

canolog ar gyfer trefniant y Grŵp yn dod i ben yn Rhagfyr 2011. Yn anffodus, nid oedd dewis gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ond tynnu allan o ddarpariaeth y Grŵp hefyd. Fe fyddwn, fodd bynnag, yn parhau i ymateb i ddigwyddiadau sy'n digwydd ar y lan, megis mewn dociau.

Fe wnaethon ni barhau i ddatblygu sgiliau diffoddwyr tân mewn meysydd megis achub ar ddŵr mewndirol a chynnal cymhwysedd mewn offer arbenigol gan Lywodraeth Cymru megis cychod tân a'r Pwmp Cyfaint Mawr a ddefnyddir i symud llawer o ddŵr. Mae adnoddau o'r fath yn ychwanegu at gydnerthedd cenedlaethol, ac efallai y bydd eu hangen i gefnogi gwasanaethau tân ac achub eraill o bryd i'w gilydd. Yn ystod y flwyddyn, cytunwyd bod angen cael cychod tân newydd yn 2012-13 gan uwchraddio ein gallu mewn perthynas â digwyddiadau dŵr.

Mae'r siart isod yn dangos y gostyngiad graddol yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig yr oedd angen i'r Gwasanaeth fynd atynt, ers y nifer uchaf yn 2008/09.

Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (nad ydynt yn danau) yr aeth y Gwasanaeth atynt




Bu'r Gwasanaeth hefyd yn brysur yn cynorthwyo i wella diogelwch ar y ffyrdd yn ystod y flwyddyn, gan weithio yn ôl y Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd. Mae Taith, sef cyd-bwyllgor y chwe Awdurdod Lleol, wedi cydnabod ein gallu i gael cysylltiad llwyddiannus â gyrwyr a theithwyr ifanc yng Ngogledd Cymru, ac mae'n gweithio i sicrhau gwelliannau sylweddol ac arwyddocaol i drafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth.

Fe wnaethom ni gyflwyno'r sioe 'Gwrthdrawiadau Marwol' i golegau ac ysgolion uwchradd yn ogystal ag mewn digwyddiadau ym maes diogelwch ar y ffyrdd. Cynhaliwyd cyfanswm o 34 o ddigwyddiadau, a chael cyswllt â 6,825 o yrwyr / teithwyr ifanc.

Fe gydweithion ni â Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Uned Ddiogelwch Cyngor Sir Gwynedd trwy Bartneriaeth Diogelwch Ffyrdd Gwynedd, gan gefnogi'r ymgyrch flynyddol yn erbyn gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau, ac roedd yn cynnwys arddangosiadau ac efelychiadau rhyngweithiol.

Yn ystod y flwyddyn, fe ddatblygon ni ragor o gysylltiadau â Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â system ar gyfer rhannu gwybodaeth a phroffilio marwolaethau ar y ffyrdd; yna defnyddiwyd yr wybodaeth yn ein cyfarfodydd rheolaidd ac ar gyfer trafod datblygiadau'r dyfodol gyda gwasanaethau tân ac achub y Canolbarth a'r Gorllewin a'r De. Yn 2012/13 bydd yr Heddlu'n helaethu'r gwaith proffilio yma am gyfnod o bum mlynedd er mwyn gweld a oes tueddiadau newydd; hefyd mae Llywodraeth Cymru yn mynd i gyhoeddi Strategaeth newydd ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd, a bydd y ddau beth yn sail i'n strategaeth leol ni. Mae angen gwneud rhagor o waith hefyd yn 2012/13 i roi gwell tystiolaeth o'n heffeithiolrwydd wrth ymateb i ddigwyddiadau o'r fath.

Eto, mae dyfodiad y Terfynellau Data Symudol y llynedd wedi parhau i wella'r modd y mae gwybodaeth bwysig ar gael yn hygyrch i griwiau yn ein fflyd o gerbydau brys, a hynny er mwyn gwella'r modd yr ydym yn ymateb yn weithredol.

| Amcan Gwella 4 | (Effeithiolrwydd strategol) |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Amcan | **Cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau llosgi bwriadol fel nad oes perygl i bobl, cymunedau, busnesau, yr amgylchedd na threftadaeth yr ardal.** |
| Rheswm | Mae pobl yn cynnau tanau'n fwriadol am amryw o resymau. Mae rhai'n gysylltiedig â throseddu a phatrymau ymddygiad gwrthgymdeithasol – 'y troseddau arwyddol' fel y gelwir nhw, sef y rhai a allai droi'n ddigwyddiadau mwy difrifol a throseddau os na roddir sylw iddyn. Mae rhai eraill yn gysylltiedig â chyflyrau seicolegol a/neu ymddygiadol sy'n arwain at hunanladdiad, neu *pyromania*.<br>Mae cynnydd mewn llosgi bwriadol wedi ei gysylltu ag adegau o ddirwasgiad a dirywiad economaidd, ac mae lleihad yng nghyllidebau'r sector cyhoeddus hefyd yn golygu llai o arian yn cael ei wario ar fesurau diogelwch penodol megis gosod camerâu cylch cyfyng mewn ardaloedd problemus. Mae'r gost o atgyweirio'r difrod a achosir gan danau bwriadol mewn adeiladau cyhoeddus (e.e. ysgolion) a mannau cyhoeddus (e.e. parciau) yn ymestyn y cyllidebau fwy hyn yn oed. |
| Canlyniad a ddisgwylir | Dim cynnydd yn nifer y tanau bwriadol. |
| Camau yn yr arfaeth | 1. Cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau cyhoeddus eraill a gwirfoddol i atal llosgi bwriadol a fandaliaeth trwy dân.<br>2. Gweithio'n agos â grwpiau ac unigolion penodol (e.e. trwy gynlluniau'r Ffenics a FACE) i ddylanwadu ar ymddygiad a'i symud draw oddi wrth losgi bwriadol. |
| Mesurau llwyddiant | • Gostyngiad yn nifer y tanau bwriadol yr awn atynt<br>• Nifer y bobl sy'n cwblhau cyrsiau'r Ffenics<br>• Datblygu a chyflwyno dangosyddion perfformiad lleol sy'n dangos ac yn hybu gwelliant yn effeithiolrwydd cyrsiau'r Ffenics a chynllun FACE er mwyn dylanwadu ar ymddygiad a'i symud draw oddi wrth losgi bwriadol. |

Perfformiodd y Gwasanaeth yn dda eleni; yn benodol, parhaodd â'r gwaith ar y cyd â'r Heddlu i daredu ardaloedd problemus, a gwaith ataliol arall megis gweithio gyda phlant o oedran ifanc ar gyfer sicrhau canlyniadau yn y tymor byr a'r tymor hr. Parhaodd y tueddiad am i lawr yn nifer y tanau bwriadol, a chafodd y Gwasanaeth lwyddiant wrth dreialu dull newydd o werthuso effeithiolrwydd rhaglen y Ffenics.

Mae nifer anghymesur o droseddau sy'n gysylltiedig â thân, ymosodiadau ar ddiffoddwyr tân, galwadau ffug neu ymddygiad gwrthgymdeithasol tebyg yn cael eu cyflawni gan blant a phobl ifanc. Credir bod ymyrraeth, dargyfeirio ac addysg yn gallu gwella diogelwch plant a phobl ifanc, lleihau troseddu, ac felly, mae'n gyfrannu at ddatblygu cymunedau mwy diogel a chryfach.

Mae Timau Diogelwch Cymunedol ac Ymyrraeth Ieuenctid y Gwasanaeth yn ymdrechu i feithrin perthynas â phobl ifanc o sbectrwm eang, yn amrywio o addysg

ysgol prif ffrwd i'r rhai sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol, rhai gyda phroblemau ymddygiad troseddol neu rai sydd ddim ond â risg o ryw fath.

Menter o'r fath yw prosiect y Ffenics, ac mae wedi ei anelu'n benodol at bobl ifanc a allai elwa ar ymyrraeth gan y Gwasanaeth Prawf y tu allan i ddulliau prif ffrwd; y nod yw diwygio rhai, os nad y cwbl, a'u cynorthwyo i fod yn fwy brwdfrydig a chadarnhaol amdanynt eu hunain, gan achosi iddynt fod yn ddinasyddion gwell maes o law. Llwyddir i wneud hyn trwy ddefnyddio tasgau diffoddwr tân a gweithio tîm, herio agweddau, hybu meddwl yn annibynnol, a datblygu rhinweddau personol. Mae'r cynllun yn parhau i fod yn llwyddiannus iawn yn gostwng y cyfraddau aildroseddu gydag ymddygiad yn gysylltiedig â thân. O blith y 225 o fyfyrwyr a fu ar gyrsiau'r Ffenics yn 2010/11, ni chofnodwyd fod yr un myfyriwr wedi aildroseddu gydag ymddygiad yn gysylltiedig â thân yn ystod y flwyddyn ganlynol (2011/12).

Mae tîm y Ffenics yn y Gwasanaeth hefyd wedi treialu dull newydd o werthuso ar gyfer asesu'r canlyniadau ar unwaith i fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y prosiect, gan ddefnyddio'r *Feelings, Attitudes, and Behaviours Scale for Children* (FAB-C). Mae arwyddion cynnar o'r treial yn galonogol, ac yn dangos canlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n cymryd rhan.


Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ni ragor o waith ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub y De. Daeth y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru at ei gilydd i geisio sicrhau bod y cyrsiau Ffenics yn cael eu hachredu trwy 'Agored Cymru' er mwyn rhoi cymhwyster sylfaenol i'r myfyrwyr. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2012/13, a byddwn yn ceisio ennill achrediad i'r cyrsiau yn 2012.

Mae timau'r Ffenics yn y tri gwasanaeth yng Nghymru hefyd wedi cytuno i fabwysiadu un brand Ffenics i Gymru gyfan. Y gobaith yw y bydd mabwysiadu un brand ar gyfer y Ffenics yn gymorth i wneud y Ffenics yn fwy effeithiol ac i'w hybu mewn cymunedau a chydag asiantaethau ieuenctid.

Yn dilyn proses hirfaith, derbyniwyd y Ffenics yn un o'r 'prosiectau ysbrydoli' ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain 2012. Daw hyn i ffrwyth yn 2012/13 pan gawn gyfle i hyrwyddo'r rhai sy'n cymryd rhan yng Ngogledd Cymru.

Mae'r siart below yn dangos y gostyngiad graddol yn nifer yr achosion o losgi bwriadol ers y nifer fwyaf yn 2006/07.

**Tanau bwriadol yr aethpwyd atynt**




Bydd mentrau ymyrraeth ieuenctid megis cwrs y Ffenics yn cael effaith ar broblem ymddygiad yn gysylltiedig â thân a llosgi bwriadol yn y tymor hir.

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau rhagor o arian gan Lywodraeth Cymru yn 2011/12 i barhau â'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Gyda staff o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru, mae'r tîm yn gweithio yn ôl 'Strategaeth Lleihau Llosgi Bwriadol Cymru' ac yn canolbwyntio ar y prif gategorïau o danau bwriadol yng Ngogledd Cymru, sef cefn gwlad, cerbydau, adeiladau a rheoli gwastraff.

Fel mater o drefn, mae'r Tîm yn monitro ac yn dadansoddi data tanau bwriadol, gweithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid inni i adnabod safleoedd gwag a allai ddenu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yna, gall y tîm anelu gweithgareddau lleihau llosgi bwriadol a gweithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid inni i leihau llosgi bwriadol.

Mae'r Tîm wedi parhau i fanteisio ar ei gysylltiadau â hen bartneriaid yn ogystal â datblygu gwaith newydd ar y cyd, anelu amrywiaeth o ymyrriadau ymhob rhan o ardal y Gwasanaeth gan ddibynnu ar yr angen lleol. Yn 2011/12, gwnaed gwaith ar y cyd â'r:

- Gwasanaethau Ieuenctid
- Gwasanaethau Tai Awdurdodau Lleol
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion (CAHMS)
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Y Comisiwn Coedwigaeth
- Ymddiriedolaeth Natur
- Tirfeddiannwyr a datblygwyr eiddo lleol

- Yr Uchel-Siryf
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Ymwelwyr Iechyd
- Ysgolion
- Swyddog Datblygu Chwaraeon
- Canolfan Ymddygiad Gwybyddol Caerdydd

Parhaodd y Tîm gyda'r prosiectau ataliol llwyddiannus ar adegau strategol o'r flwyddyn megis gwyliau'r haf, Ymgyrch B.A.N.G ar adeg Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt, ac ymgyrch atal tanau glaswellt ar adeg y Pasg.

Bu'r Tîm hefyd yn cefnogi asiantaethau eraill, er enghraifft yr ymgyrch gweithgareddau iach *Empowering Pedals*, ac yn treialu proseictau newydd i geisio ffyrdd i wella'r modd yr ydym yn cysylltu â phobl ledled ardal y Gwasanaeth. Yn dilyn y cynlluniau peilot – Grant y Past i Dimau Plismona, Prosiect Estyn Allan, a'r *Woodland Watch* – mae'r arwyddion cynnar yn dangos i'r rhain gael effaith gadarnhaol, gan leihau'r ymddygiad gwrthgymdeithasol, a llosgi bwriadol yn benodol, gydag 85% o ostyngiad yn un lle.

Yn 2012/13, bydd y Gwasanaeth yn ceisio parhau â'r mentrau pwysig hyn i fynd i'r afael â llosgi bwriadol, a cheisio sicrhau rhagor o arian er mwyn parhau'r gwaith helaeth a'r gwaith ar y cyd a wneir gan y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol.

| **Amcan Gwella 5 (Y Cynllun Lleihau Risg)** | **(Cynaliadwyedd)** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Amcan | **Canolbwyntio ar wella datblygiad cynaliadwy'r Awdurdod trwy gael y cydbwysedd iawn rhwng effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol darparu gwasanaeth tân ac achub.** |
| Rheswm | Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eisoes wedi cyflawni llawer o waith amgylcheddol ac arbed ynni, yn bennaf mewn perthynas â lleihau ei ôl troed carbon trwy reoli ei adeiladau a'i gerbydau, a'i ddefnydd o danwydd, ynni a dŵr.<br><br>Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud eto, gan gynnwys rhoi cynllun datblygu cynaliadwy ar waith fesul cam. |
| Canlyniad a ddisgwylir | Gogledd Cymru sy'n well, yn fwy diogel ac yn wyrddach trwy reoli datblygiad cynaliadwy yn barhaus. |
| Camau yn yr arfaeth | Rhoi Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy ar waith fesul cam. |
| Mesurau llwyddiant | Pob agwedd ar y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy yn cael ei fonitro:<br>• Y Gwasanaeth yn defnyddio llai o ynni a thanwydd<br>• Llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr gan y Gwasanaeth (ôl troed carbon y Gwasanaeth ei hun)<br>• Llai o ddŵr yn cael ei ddefnyddio<br>• Y Gwasanaeth yn anfon llai o wastraff i dirlenwi<br>• Mwy o werth bioamrywiaeth ystad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>• Llai o garbon o ganlyniad i lai o danau yng Ngogledd Cymru |


Gwnaeth y Gwasanaeth gynnydd eleni. Parhaodd y tueddiad cyffredinol am i lawr yng nghyfanswm yr ynni sy'n cael ei ddefnyddio a'r allyriadau, felly hefyd yn y dŵr a ddefnyddiwyd. Hefyd, fe wnaethom ni ailgylchu cyfran mwy o'n gwastraff yn hytrach na'i anfon i dirlenwi. Mae'r Gwasanaeth yn dal wedi ymrwymo i gynaliadwyedd gyda sefydlu'r Bwrdd Datblygu Cynaliadwy, ac i'r gwaith datblygu pellach sydd ei angen yn y maes cymharol newydd hwn.

Parhaodd y Gwasanaeth i weithio tuag at wneud defnydd mwy cyfrifol o ddŵr ac ynni er mwyn defnyddio a llai, a chael llai o allyriadau carbon. Mae'r rhaglen ar gyfer uwchraddio'r cyfleusterau darllen mesuryddion wedi mynd yn ei blaen yn ystod y flwyddyn, gyda mesuryddion yn cael eu newid ar safleoedd allweddol i ddechrau. Hefyd, cychwynwyd ar raglen archwilio tanciau tanwydd/olew er mwyn bod yn fwy effeithlon yn y dyfodol.

Ynni megis nwy a thrydan sy'n dal i fod yn brif faes defnyddio yn Gwasanaeth. Mae'r tueddiad cyffredinol am i lawr, gyda'r defnydd 17% yn llai o'i gymharu â gwaelodlin y flwyddyn 2007/08, sy'n cyfateb i bron i'r Gwasanaeth yn defnyddio bron i 1 filiwn o kWh yn llai o ynni.

Mae'r siart isod yn dangos y gostyngiad graddol yn y defnydd o ynni a thanwydd y fflyd, a'r gostyngiad mewn allyriadau carbon o'r herwydd.

**<u>Defnyddio Ynni a Thanwydd</u>**





Mae lefelau gweithgarwch yr ochr weithredol hefyd wedi cael effaith ar y defnydd – er enghraifft y dŵr a ddefnyddir mewn tanau – yn ogystal â thanwydd ar gyfer ein fflyd o gerbydau brys. Parhaodd y tueddiad cyffredinol am i lawr yn nifer y digwyddiadau yr oedd angen i'r Gwasanaeth fynd atynt yn ystod y flwyddyn, gan gyfrannu at ostyngiad yn y defnydd o ynni a thanwydd.

Rydym wedi bod yn talu sylw i adnoddau ein fflyd, gyda chyfyngiad ar gyflymder y cerbydau nad ydynt yn rhai brys er mwyn lleihau'r defnydd o danwydd ac allyriadau. Hefyd, rhaid ystyried y lefelau is o allyriadau mewn perthynas â cherbydau newydd a newydd sbon.

Mae'r siart isod yn dangos tueddiad am i lawr sy'n dod i'r amlwg yn y defnydd o ddŵr, gyda'r Gwasanaeth yn defnyddio bron i 25% yn llai o ddŵr o'i gymharu â gwaelodlin y flwyddyn 2007/08. Mae hyn yn cyfateb i'r Gwasanaeth yn defnyddio 3,600 yn llai o giwbiau metrig.


**Defnyddio dŵr**



Rydym yn dechrau gweld gostyngiad o ran faint o wastraff sy'n mynd i dirlenwi. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ni anfon tua 83,000kg i dirlewni, sydd bron 20% yn llai o wastraff o'i gymharu â gwaelodlin y flwyddyn 2007/08. Rydym hefyd yn ailgylchu / ailbrosesu mwy o wastraff nag yn y blynyddoedd a fu.

Mae'r siart isod yn dangos y gostyngiad yn y gwastraff a anfonwyd i dirlenwi eleni.

**Cael Gwared ar Wastraff**




Mae gwerth bioamrywiaeth ystad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwella. Mae prosiect y gwrychoedd a'r ardd loynnod byw yn y Pencadlys wedi aeddfedu'n dda ers 2008. Gwelwyd sawl rhywogaeth o loynnod byw a phryfed yno, ac yn 2012 gwelwyd rhywogaeth prin o ffacbys yno.

Yn dilyn asesiad o gyfleoedd i leihau carbon yn y Gwasanaeth, mae'r Bwrdd Datblygu Cynaliadwy wedi cymeradwyo cynllun lleihau carbon. Gosodwyd targedau ar gyfer lleihau carbon gostyngiad yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys lleihad o 3% yn 2012/13.

Mae lleihau carbon o ganlyniad i leihau tanau yn faes gwaith cymharol newydd. Bydd y Gwasanaeth yn edrych ar arferion da mewn gwasanaethau tân ac achub eraill er mwyn datblygu cyfrifiadau ar gyfer mesur allyriadau carbon tanau.

| Amcan Gwella 6 (Cynllun Lleihau Risg) | (Tegwch) |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Amcan | **Dod yn well am ganfod a chael cysylltiad â phobl a allai eu cael eu hunain dan anfantais gymdeithasol a/neu economaidd, fel ein bod yn gallu gwella eu synnwyr o les a lleihau lefel y risg i'w diogelwch.** |
| Rheswm | Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhoi llawer o amser ac egni i drafod â grwpiau lleiafrifol ac estyn allan i bobl sydd mewn mwy o berygl oherwydd amgylchiadau personol neu gyflwr iechyd. Dyma rai enghreifftiau:<br>▪ Cyflogi Cydlynydd y Trydydd Sector i gynorthwyo i ddatblygu cytundebau lefel gwasanaeth gyda chynrychiolwyr amrywiaeth o grwpiau lleiafrifol;<br>▪ Darparu Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref wedi eu teilwra i anghenion penodol (e.e. i bobl anabl a phobl oedrannus a bregus);<br>▪ Cynnal cyrsiau wythnos i garcharorion o Garchar Altcourse, Glannau Mersi;<br>▪ Cynnal amrywiaeth eang o raglenni ar gyfer pobl ifanc ac ysgolion;<br>▪ Gweithio gyda gyrwyr ifanc i helpu i gael mwy o ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd.<br>Fodd bynnag, nid oes gan y Gwasanaeth ddull cydlynedig o broffilio ei gymunedau er mwyn anelu gweithgarwch diogelwch cymunedol yn y modd gorau. |
| Canlyniad a ddisgwylir | Bod yn well am anelu cynghorion atal tanau yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o gymunedau penodol. |
| Camau yn yr arfaeth | 1. Dwyn ynghyd amrywiaeth o wybodaeth ar boblogaeth o ffynonellau dibynadwy i gefnogi'r gwaith o anelu cynghorion diogelwch yn effeithlon ac effeithiol.<br>2. Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl sy'n helpu i amddiffyn pobl rhag bod o dan anfantais ar sail oedran, anabledd, rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd, hil, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol. |
| Mesurau llwyddiant | • Datblygu proses i ddwyn ynghyd wybodaeth berthnasol am rannau penodol o ardal y Gwasanaeth.<br>• Datblygu a mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Sengl. |

Mae'r Gwasanaeth wedi edrych ar wahanol ffynonellau o wybodaeth am boblogaeth, gan ddefnyddio'r hyn sydd ar gael trwy ffynonellau ar y we megis 'Stats Wales' ac 'Info Base Cymru'. Er enghraifft, mae gwybodaeth o'r fath wedi cyfrannu at ddatblygu proffiliau lleol er mwyn adnabod risgiau.

Bydd y gwaith yn mynd ymlaen i ddwyn ynghyd yr wybodaeth fwyaf buddiol, a rhagwelir y bydd canlyniadau Cyfrifiad 2011 o fudd arbennig pan fydd ar gael.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd greu cynllun cydraddoldeb sengl. Ym Mawrth 2012 cymeradwywyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016 gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gosod amcanion cydraddoldeb Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i ymateb i ofynion

deddfwriaethol Rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru).

Cafodd y cynllun a gymeradwywyd ei gyhoeddi ar ddiwedd 2011/12. Yn 2012/13 caiff y cynllun ei hyrwyddo'n fewnol ac yn allanol er mwyn codi ymwybyddiaeth am y gwaith a wneir gan yr Awdurdod. Caiff gweithgarwch ei fonitro er mwyn asesu'r effaith, ac adroddir am y cynnydd bob blwyddyn i'r Awdurdod.

Mae'r cynllun i'w gael trwy ddilyn y ddolen isod, neu gallwch gysylltu â ni trwy ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y ddogfen hon.

http://www.nwales-tanauervice.org.uk/media/91758/microsoft_word_-_final_strategic_equality_plan_cymraeg-cover.pdf

| **Amcan Gwella 7 (Y Cynllun Lleihau Risg)** | **(Argaeledd y Gwasanaeth)** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Amcan | **Sicrhau bod trefniadau'r Gwasanaeth ar gyfer Cynllunio a Rheoli Parhad Busnes mor gynhwysfawr a sicr ag y bo modd.** |
| Rheswm | Mae'r cyhoedd yn disgwyl i'r gwasanaeth tân ac achub fod ar gael trwy'r amser, ac mae'n anodd rhagweld adeg pan na fyddai. Fodd bynnag, nid yw gwasanaethau brys wedi eu harbed rhag absenoldebau mawr o'r gwaith oherwydd, er enghraifft, ffliw pandemig neu fethiant yn y cadwyni cyflenwi ar gyfer nwyddau a gwasanaethau hanfodol. Yn wahanol i'r gorffennol, ni fyddai'r lluoedd arfod ar gael i ddarparu gofal tân ar adeg streic genedlaethol.<br>Mae polisi cynhwysfawr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar reoli parhad busnes yn ei le, ac mae'r staff yn gwybod beth sy'n ofynnol ohonynt. Fodd bynnag, mae angen gwella'r modd y caiff y cynllun parhad busnes ei brofi a'i ddiweddaru. |
| Canlyniad a ddisgwylir | Mwy o sicrwydd na fydd digwyddiad annisgwyl yn tarfu ar bob agwedd ar weithrediadau'r gwasanaeth tân ac achub a'r trefniadau sy'n cefnogi'r gweithrediadau hynny. |
| Camau yn yr arfaeth | 1. Ailarfarnu'r adnoddau a'r cyfrifoldebau Cynllunio Parhad Busnes er mwyn rhoi pwyslais eto ar symud ymlaen â'r cynlluniau presennol a mynd ati'n barhaus i ddatblygu rhai newydd;<br>2. Rhoi'r un pwys ar agweddau corfforaethol a gweithredol y rheolaeth o barhad busnes er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ran wedi ei anghofio a bod y cynlluniau adfer yn rhai cadarn. |
| Mesurau llwyddiant | • Cyfrifoldeb pendant wedi ei neilltuo am Reoli Parhad Busnes yn y Gwasanaeth.<br>• Datblygu a gweithredu cyfundrefn brofi ac ymarfer i wirio pa mor ddilys yw'r cynlluniau presennol. |

Mae hanes o barhad busnes yn y Gwasanaeth er sawl blwyddyn, yn cael ei ategu gan yr Awdurdod, sydd wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o Reoli Parhad Busnes – mae hyn yn gymorth i ddarparu ei wasanaethau, diogelwch ei staff, ei asedau a'i enw da.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad o bolisi parhad busnes y Gwasanaeth fel y cynlluniwyd. Mae Rheoli Parhad Busnes yn rhan annatod o'r Gwasanaeth, gyda dull cydlynedig ac unedig.

Hefyd yn ystod y flwyddyn rhoddodd y Gwasanaeth ei system RhPB ar waith fel ffordd i baratoi ar gyfer bygythiadau posibl wrth iddynt ddod i'r amlwg – rhai enghreifftiau diweddar oedd y bygythiad o weithredu diwydiannol ddiwedd 2011, ynghyd â'r bygythiad o darfu ar gyflenwadau tanwydd yn nechrau 2012 – ac mae hyn wedi tanlinellu mor bwysig yw RhPB yn y Gwasanaeth.

Mae rolau a chyfrifoldebau pendant yn y Gwasanaeth i sicrhau llwyddiant parhaus i RhPB, gyda mecanweithiau monitro ac adolygu yn eu lle. Hefyd, datblygwyd pecyn e-ddysgu ar y we i'w lenwi gan y staff. Crewyd cynllun gweithredu cynhwysfawr ar gyfer 2012/13 fel rhan o gylch parhaus RhPB.

| Amcan Gwella A (Strategaeth Adnoddau) | (Cynaliadwyedd) |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Amcan | **Newid agweddau ar strwythur a ffyrdd o weithredu yn y sefydliad.** |
| Rheswm | Lleihau lefel y risg sy'n wynebu'r Gwasanaeth trwy leihau – mewn ffordd drefnus – y gost o ddarparu gwasanaethau, a gwella llawer ohonynt ar yr un pryd. |
| Canlyniad a ddisgwylir | Gallu cynnal neu wella lefelau'r gwasanaeth i'r cyhoedd, ond â llai o gyllideb. |
| Camau yn yr arfaeth | Trwy:<br>A.1 Gweithredu'r adolygiad o swyddogion.<br>A.2 Cyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu'r swyddogaeth diogelwch tân deddfwriaethol.<br>A.3 Ymchwilio i ba mor bosibl yw defnyddio cronfa wrth gefn o staff amser cyflawn i ymorol am orsafoedd y system ar gael yn ôl y galw.<br>A.4 Adolygu'r ochr staff cefnogol.<br>A.5 Datblygu protocol ar gyfer Cynllunio a Gwerthuso Swyddi. |
| Mesurau llwyddiant | Cwblhau'r camau sydd yn yr arfaeth, a gwario o fewn y gyllideb. |

Cafodd y Gwasanaeth flwyddyn lwyddiannus, gan gwbllhau'r holl gamau o fewn y gyllideb. Arweiniodd rhai o'r newidiadau hyn at welliant ar unwaith yn y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, gyda disgwyl i rai eraill sicrhau gwelliannau dros gyfnod hirach. Ar y cyfan, mae'r camau hyn wedi lleihau lefel y risg sy'n wynebu'r Gwasanaeth o ran pwysau ar y gyllideb.

**A.1 Gweithredu'r adolygiad o swyddogion.** *Ac,*

**A.4 Adolygu'r ochr staff cefnogol.**

O ganlyniad i weithredu'r adolygiad o swyddogion, ac adolygiad wedi hynny o'r ochr gefnogol, ailstrwythurwyd y rheolwyr a'r gefnogaeth a roddir i orsafoedd. Mae'r system newydd yn darparu lefel uchel o gefnogaeth gan swyddogion ac yn weinyddol, ac yn arbed tua £450,000 y flwyddyn i'r Gwasanaeth. Roedd yr ailstrwythuriad yn gyfle inni wella'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu – yn gwella cydnerthedd ac ymateb swyddogion i ddigwyddiadau, yn creu swyddogaeth sicrwydd gweithredol gadarn ac yn canfod ffyrdd arloesol o gyflwyno diogelwch tân cymunedol. Gweithredwyd yr adolygiad o swyddogion yn Ebrill 2011, a chynhaliwyd yr adolygiad o staff cefnogol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac felly yn ystod 2012-13 y bydd dod i rym yn yn llwyr.

**A.2 Cyflwyno ffyrdd newydd o gyflawni'r swyddogaeth diogelwch tân deddfwriaethol.**

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd adolygiad o'r swyddogaeth diogelwch tân

deddfwriaethol, gan weithredu'r strwythur staffio newydd wedi hynny, a chafwyd yr arbedion a ragwelwyd. Y disgwyl yw y bydd y gweithgarwch gorfodaeth yn dod yn ôl i'r lefelau arferol ar ôl y flwyddyn bontio hon ar ôl cwblhau'r datblygu a'r hyfforddi yn y strwythur newydd.

**A.3 Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cronfa wrth gefn o staff y system dyletswydd amser cyflawn i ymorol am orsafoedd y system dyletswydd ar gael yn ôl y galw.**

Cwblhawyd yr astudiaeth ddichonoldeb, a chafodd y dewis gorau – y Gronfa Adnoddau Gweithredol – ei gymeradwyo i'w roi ar waith yn 2012/13. Bydd y gronfa'n golygu bod staff y System Dyletswydd Amser Cyflawn yn cael eu defnyddio am y tro i gefnogi argaeledd gorsafoedd y System Dyletswydd ar gael yn ôl y Galw. Defnyddir y gronfa hefyd yn ystod 2012 i gefnogi absenoldebau tymor hir ar orsafoedd amser cyflawn.

Mae cyswllt agos rhwng prosiect y gronfa a phrosiect y system cylchrestru, sef y dewis gorau i geisio lleihau costau staffio £1 filiwn yn ystod 2012/13 a 2013/14. Bydd y gronfa'n cynnwys staff yr ochr weithredol yn cael eu rhyddhau o wylfeydd gorsafoedd amser cyflawn yn dilyn gweithredu'r trefniadau cylchrestru newydd. Parheir i fonitro'r ddarpariaeth dros dro yma yn y blynyddoedd i ddod.

**A.5 Datblygu protocol ar gyfer Dylunio a Gwerthuso Swyddi.**

Yn dilyn y proses lawn o Werthuso Swyddi, mae'r gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau cysondeb mewn perthynas â darpar swyddi.

| **Amcan Gwella B (Strategaeth Adnoddau)** | **(Effeithlonrwydd)** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Amcan | **Adolygu a gwella prosesau busnes mewnol.** |
| Rheswm | Canfod a lleihau biwrocratiaeth a baich gweinyddol tra'n cynyddu'r gallu mewnol a gwella allbwn ar yr un pryd. |
| Canlyniad a ddisgwylir | Gallu cynnal neu wella lefelau'r gwasanaeth i'r cyhoedd, ond â llai o gyllideb. |
| Camau yn yr arfaeth | Trwy:<br><br>B.1 Adolygu effeithlonrwydd amrywiaeth o systemau busnes, a chysylltu hynny ag asesiad cadarn achos-wrth-achos o swyddi er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyson â gofynion y gwasanaeth.<br><br>B.2 Ailddylunio'r swyddogaeth cefnogi a datblygu'r ochr weithredol.<br>B.3 Ailddylunio'r swyddogaeth hyfforddi, datblygu a dysgu. |
| Mesurau llwyddiant | Cwblhau'r camau sydd yn yr arfaeth, a gwario o fewn y gyllideb. |

Cafodd y Gwasanaeth flwyddyn lwyddiannus, gan weithredu nifer o wellliannau i'r systemau a'r strwythurau busnes gyda llai o gyllideb.

**B.1 Adolygu effeithlonrwydd amrywiaeth o systemau busnes, a chysylltu hynny ag asesiad cadarn achos-wrth-achos o swyddi er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyson â gofynion y gwasanaeth.**

Ar ôl cydnabod cyfyngiadau'r system gyllid electronig bresennol (mae'r system bresennol ar fin cyrraedd diwedd ei hoes), dewiswyd system gyllid electronig newydd. Mae modiwlau ar-lein yn y system newydd, sy'n galluogi'r staff i archebu nwyddau, rheoli cyllidebau a chofnodi treuliau a chostau teithio yn fwy effeithlon.

Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys systemau newydd ar gyfer swyddogaethau'r storfa a'r fflyd, gan gynnwys manteision tebyg – cael mwy o effeithlonrwydd yn y ffordd y caiff gwisgoedd, deunydd ysgrifennu a deunyddiau traul eu harchebu'n fewnol.

Bydd y systemau newydd yn cael eu rhoi ar waith yn Ebrill 2012, a byddant yn fwy atomatig, yn lleihau gwaith papur ac yn gwella prosesau busnes, a hynny o fewn y cyllidebau presennol – mae'r uwchraddiad yma yn gwella cydnerthedd o fewn y Gwasanaeth. Disgwylir y bydd y system newydd yn cymryd rhywfaint o amser i ennill ei phlwyf, er enghraifft bydd angen hyfforddi'r staff, a daw'r arbedion mwyaf dros y tymor hir.

**B.2 Ailddylunio'r swyddogaeth cefnogi a datblygu'r ochr weithredol.** *A,*

**B.3 Ailddylunio'r swyddogaeth hyfforddi, datblygu a dysgu.**

Cwblhawyd adolygiad sylfaenol o drefniadau gwaith y swyddogaeth cefnogi'r ochr weithredol yn 2010 er mwyn canfod meysydd i'w gwella ac unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

Roedd yr adolygiad yn ymdrin ag anghenion yr ochr weithredol, ac yn ceisio cael cymaint o hyblygrwydd â phosibl o ran cefnogi'r ymateb gweithredol yng Ngogledd Cymru. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod ei staff mewn cyflwr parod drwy'r amser, ac y gallant ymyrryd yn effeithiol mewn amrywiaeth mawr o argyfyngau.

Roedd yn adeg da bod argymhellion yr adolygiad hwn yn cael eu hadlewyrchu hefyd yn strwythur ehangach yr Adolygiad o Swyddogion. Dechreuodd yr adran Weithrediadau newydd ei gwaith ar 1af Ebrill 2011 er mwyn cael rhagor o welliannau i gefnogaeth yr ochr weithredol, galluoedd a pharodrwydd. Gwnaed hyn o fewn y gyllideb ymlaen.

Hefyd, cynhaliwyd adolygiad o'r swyddogaeth hyfforddi, datblygu a dysgu yn 2010, yn rhannol er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn 2009. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ddiogelwch ei staff bob amser.

Mae iechyd a diogelwch yn rhan o bopeth y mae'r Gwasanaeth yn ei ddarparu, felly o'r 1af Ebrill 2011, i gyd-fynd â strwythur ehangach yr Adolygiad o Swyddogion, daeth yr adran Hyfforddi a Datblygu newydd yn weithredol. Cafodd yr ailstrwythuro ei wneud o fewn y gyllideb, ac mae wedi cryfhau'r adnoddau canolog ar gyfer hyfforddi a datblygu i'r holl staff, ond yn arbennig i staff system y ddyletswydd ar gael yn ôl y galw. Mae'n darparu cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i'r Gwasanaeth mewn meysydd eraill hefyd, megis:

- Sicrhau ansawdd
- Gosod safonau i'w cyflwyno
- Datblygu ac adolygu polisïau
- Systemau dysgu a datblygu
- Amgylcheddoedd dysgu rhithwir

| Amcan Gwella C (Strategaeth Adnoddau) | (Cynaliadwyedd) |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Amcan | **Cynllunio a pharatoi ar gyfer y gostyngiad yng nghyllideb 2012-13** |
| Rheswm | Gwireddu cynllun yr Awdurdod y cytunwyd arno ar gyfer y gyllideb i gael 7.5% (£2.45 miliwn) o arbedion arian parod yn y tair blynedd rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2014. |
| Canlyniad a ddisgwylir | Gallu cynnal neu wella lefelau'r gwasanaeth i'r cyhoedd, ond â llai o gyllideb. |
| Camau yn yr arfaeth | Cytuno ar gynllun i leihau costau staff oddeutu £1,000,000 (e.e. hunangylchredu/cau gorsafoedd/symud pympiau/dewis arall). |
| Mesurau llwyddiant | Cwblhau'r camau sydd yr arfaeth, a gwario o fewn y gyllideb. |

Perfformiodd y Gwasanaeth yn dda eleni, a chytuno ar gynllun ar gyfer y gyllideb. Yn wyneb yr angen i leihau'r gyllideb, penderfynodd yr Awdurdod, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, i rewi'r gyllideb refeniw ar £32 miliwn dros y tair blynedd nesaf, sydd mewn gwirionedd yn golygu sicrhau arbediad arian parod o £2.45 miliwn - a gostyngiad o 7.5% - i'w rannu'n gyfartal dros y tair blynedd. Byddai hyn yn golygu gostyngiad o £800,000 ymhob blwyddyn yn 2011-12, 2012-13 a 2013-14.

Bu'r Awdurdod yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer cael arbedion yn y gyllideb cyn cymeradwyo adolygiad o'r trefnaidau cylchrestru a chreu prosiect y System Gylchrestru. Yn ystod y flwyddyn gwnaeth y Gwasanaeth waith sylfaen y prosiect hwn gyda'r bwriad o'i roi ar waith yn 2012/13.

Bydd y newidiadau i'r trefniadau cylchrestru yn golygu cael gwared, fel y cytunwyd, ar 22 o swyddi staff o wylfeydd gweithredol (gorsafoedd criw dydd a 24 awr). Mae'r system wedi ei chynllunio i gael y criwiau gorau ar y gorsafoedd hynny bob dydd, yn ogystal â chael cydnerthedd i ymorol am absenoldebau. Bydd rhag-gynllunio a rhaglennu diwrnodiau hyfforddi a datblygu y tu allan i'r shifftiau gwaith yn sicrhau bod y sgiliau risg-gritigol ac arbenigol yn cael eu cynnal i safon uchel.

Mae'r system fwy effeithlon i fod i ddod i rym ym Mai 2012/13, gyda'r bwriad o gael arbedion yn y gyllideb yn ogystal â gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu, a hynny trwy roi cefnogaeth i argaeledd yr ochr weithredol o ddydd i ddydd. Mae cysylltiad agos hefyd rhwng y prosiect â'r Gronfa Adnoddau Gweithredol a gymeradwyd yn y flwyddyn, i'w rhoi ar waith yn Ebrill 2012/13. Caiff y trefniadau newydd eu monitro'n rheolaidd.

# ADRAN 3

## GWELLIANNAU ERAILL YN 2011-12

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth y Gwasanaeth lawer o welliannau cyffredinol eraill yn ogystal â'r rhai a amlinellir yn benodol yn ein Hamcanion Gwella. Dyma rai enghreifftiau yn unig o'r gwelliannau cyffredinol a wnaed gan y Gwasanaeth:

**Rheoli'r Fflyd**

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Gwasanaeth yn edrych ar ostyngiadau yn y gost o gael peiriannau tân newydd, cynnal gwaith ar y cyd trwy Gymru, gwneud gwaith sylfaen ar gyfer y Fframwaith ar gyfer Cymru gyfan ac ystyried cael cerbydau arbrofol i fynd at danau bychain. Yn 2012/13, sefydlir cytundeb fframwaith yn y gwasanaethau yng Nghymru, gyda'r bwriad o sicrhau gostyngiadau yn y dyfodol ar sail prynu swmp.

**Defnyddio Technoleg Newydd**

Yn dilyn prosiect peilot cynharach, aeth y Gwasanaeth ati i weithredu system electronig newydd ar gyfer argaeledd yn y Gwasanaeth yn ystod 2011/12. Defnyddir y system i symleiddio'r gwaith o gynnal a chadw a monitro argaeledd criwiau, adnoddau a gorsafoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ac mae'n seiliedig ar feddalwedd chwilio'r we. Gellir diweddaru gwybodaeth am adnoddau ac argaeledd gorsafoedd trwy'r rhyngwyneb ar y we ei hun neu drwy ffôn symudol gan aelodau unigol o griwiau.

Mae'r gwaith o ddatblygu system electronig yn ddull ar y cyd gan y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru er mwyn gwella'r gefnogaeth a roddir i orsafoedd wrth gynllunio eu hargaeledd, ac mae'n sicrhau ein bod yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau. Bydd y prosiect yn mynd ymlaen i 2012/13 oherwydd problemau'n ymwneud â meddalwedd.

Mabwysiadodd y Gwasanaeth hefyd system ddysgu a dabtlygu newydd ar y we, wedi ei dylunio'n arbennig ar gyfer gwasanaethau tân ac achub. Rhoddwyd y system ar waith fesul cam, ac ar hyn o bryd caiff ei defnyddio gan grwpiau penodol yn y Gwasanaeth, gan gynnwys Gweithrediadau a'r Ystafell Reoli. Yn ystod y flwyddyn daethpwyd i ddefnyddio'r system fwyfwy yn y rhannau hyn o'r Gwasanaeth, gyda'r staff yn troi at lawer o fodiwlau e-ddysgu ac e-ddatblygu. Yn 2012/13, bydd y Gwasanaeth yn parhau i wneud rhagor o welliannau i'r modiwlau sydd ar gael o fewn y system.

Hefyd, bu ein hadran TGCh yn brysur yn diweddaru technoleg yn ystod y flwyddyn, gan gwblhau hyn yn y rhan fwyaf o'n 44 o orsafoedd – mae'r gweddill i'w gwneud yn 2012/13. At hynny, roedd y gwaith o ddiweddaru technoleg radio ar safle tân yn cael ei wneud, gan barhau yn 2012/13.

## CYDWEITHIO

Mae ymdrech i sicrhau mwy yn y sector cyhoeddus yng Nghymru trwy weithio ar y cyd, ac mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio'n galed yn y maes hwn, gan gymryd yr awenau mewn sawl agwedd ar gydweithio, a chyfeiriwyd at nifer ohonynt eisoes yn y ddogfen hon. Dyma rai enghreifftiau yn unig o'r math o fentrau y mae'r Gwasanaeth wedi bod yn rhan ohonynt:

- Hyfforddi a galluogi staff mewn sefydliadau sy'n bartner inni e.e. Gofal a Thrwsio, Cymdeithas Dai Gogledd Cymru, Tai Pennaf, Tai Clwyd i gynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i'r bobl y dônt i gysylltiad â nhw.
- Addysgu gyrwyr ifanc trwy fenter Pass Plus Cymru.
- Lleihau damweiniau beiciau modur trwy weithio gyda phartneriaid megis y fenter BikeSafe gyda gwasanaethau tân ac achub eraill a Llywodraeth Cymru.
- Addysgu gyrwyr yn gyffredinol trwy'r Arddangosiadau Ardrawiad a gynhelir gyda Heddlu Gogledd Cymru, Ambiwlans Cymru a swyddogion diogelwch y ffyrdd yn y cynghorau sir.
- Ymweld ag ysgolion i ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch tân fel rhan o gwricwla Camau Allweddol 1 i 4.
- Cynnal archwiliadau amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar ddiogelwch (gan gynnwys diogelwch tân) mewn mannau trwyddedig yn foddhaol.
- Cydweithio ag asiantaethau lleol eraill (gan gynnwys cwmnïau cyfleustodau) i baratoi ar gyfer unrhyw argyfyngau mawr a allai ddigwydd.
- Cydweithio mewn gwasanaeth swyddog y wasg ar alwad gyda Heddlu Gogledd Cymru fel ffordd gynaliadwy o ddarparu gwybodaeth i'r cyfryngau y tu allan i oriau.
- Gweithio gyda Choleg Llysfasi a Heddlu Gogledd Cymru i ddatblygu ac asesu sgiliau Cymraeg ymhlith y staff.
- Cydweithio â gwasanaethau tân ac achub eraill ym meysydd hyfforddiant, caffael, recriwtio, trefniadau'r ystafell reoli, darparu cefnogaeth mewn digwyddiadau trawsffiniol.
- Cynnal ymarferion gydag amrywiaeth o sefydliadau ymatebol eraill i sicrhau llwyddiant wrth weithio ar y cyd mewn digwyddiadau, e.e. y ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru, Heddlu Gogledd Cymru, Sefydliad yr RNLI, yr Awyrlu – Chwilio ac Achub, asiantaethau'r priffyrdd, asiantaethau'r amgylchedd, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y Tîm Achub Mynydd, twneli'r A55.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo o fynd ati'n barhaus i adolygu efeithiolrwydd ei waith ar y cyd, a'i drefniadau ar gyfer partneriaethau, ac i gynyddu nifer y partneriaethau cynhyrchiol y mae'n cytuno iddynt.

# ADRAN 4

## BETH A DDYWEDODD POBL ERAILL AMDANOM YN 2011-12

### Archwilio Mewnol

Cafodd y datganiad o sicrwydd Archwilio Mewnol ar gyfer 2011/12 ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2012.

| |
|---|
| Barn yr Archwiliad Mewnol oedd fod gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2011-12 brosesau rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol a oedd yn foddhaol er mwyn rheoli'r modd y caiff amcanion yr Awdurdod eu cyflawni. |

Roedd canfyddiadau'r Archwiliad a'r negeseuon allweddol am y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn yn bositif ar y cyfryw:

**Ynys Môn a Gwynedd**

Adolygiad o'r taliadau i ddiffoddwyr tân y system ar gael yn ôl y galw, cynnal a chadw gorsafoedd a rhestr stoc peiriannau (fel rhan o'r archwiliad dilynol i'r archwiliad o Restrau Stoc Gorsafoedd a wnaed yn 2007/08), a chwblhau llyfrau log tanwydd, cynnal a chadw a defnyddio mewn perthynas â cherbydau.

<u>Casgliad yr Archwiliad: "Boddhaol".</u>

**Rheoli'r Fflyd**

Adolygiad o weithdrefnau rheoli'r fflyd mewn perthynas ag yswiriant, trwyddedu, stoc partiau sbâr, prynu, diogelwch, cynnal a chadw, profion MOT, gwaredu, taflenni gwaith a thechnegwyr.

<u>Casgliad yr Archwiliad: "Da".</u>

**Cyfrif Terfynol – Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl**

Asesiad o'r cyfrif terfynol gan un contractwr penodol.

<u>Casgliad yr Archwiliad: "Boddhaol".</u>

Cynhaliwyd **Ymchwiliad Arbennig** i rai materion penodol ym maes Adnoddau Dynol, gan greu ymchwiliad disgyblu mewnol.

**Y Fenter Twyll Genedlaethol**

Mae'r Fenter yn ymarferiad cynhwysfawr a thrylwyr trwy 'baru data' a drefnir gan y Comisiwn Archwilio mewn partneriaeth â Swyddfa Archwilio Cymru.

<u>Casgliad yr Archwiliad: "Da".</u>

## Swyddfa Archwilio Cymru

Yn unol â'i drefn arferol, lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) adroddiad Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Ionawr 2012.

Casgliad cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol oedd bod yr Awdurdod wedi rhoi trefniadau da yn eu lle i sicrhau gwelliannau, a'i fod yn gwneud yn dda yn y meysydd yr oedd yn canolbwyntio arnynt; ond nad oedd y gwaith cynllunio, gwerthuso ac adrodd yn ddigon cytbwys nac yn ddigon seiliedig ar ganlyniadau.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod yr Awdurdod yn gwneud cynlluniau da ar y cyfan ac yn rhoi trefniadau priodol yn eu lle er mwyn cyflwyno gwelliannau. Canfuwyd y canlynol gan Swyddfa Archwilio Cymru:

- roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn eu lle i fynd i'r afael â blaenoriaethau ac i ymateb i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella;
- roedd gan yr Awdurdod ddull cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ond oherwydd faint o newid sydd ei angen, mae gofyn am arweiniad bendant;
- roedd y modd yr oedd yr Awdurdod yn rheoli gwybodaeth yn rhoi cefnogaeth i welliannau, ond roedd rhai gwendidau o ran llywodraethu a pherfformiad;
- roedd trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o roi cefnogaeth i welliannau; ac
- roedd yr Awdurdod yn ateb ei ymrwymiadau statudol mewn perthynas â Deddf yr Iaith Gymraeg.

Canfu Swyddfa Archwilio Cymru hefyd fod yr Awdurdod wedi cyflawni llawer o'r hyn yr oedd wedi ei osod iddo i'w hun o ran ei flaenoriaethau. Ar y cyfan, roedd yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11. Roedd yn cynorthwyo i atal tanau a gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, ac er bod nifer y marwolaethau a'r anafiadau mewn tanau wedi codi y flwyddyn honno, roedd y tueddiad yn y tymor hir yn dangos gostyngiad. Roedd yr adroddiad yn nodi hefyd fod yr Awdurdod yn brysur yn datblygu ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon o ymateb i amrywiaeth fawr o ddigwyddiadau.

Arweiniodd yr Archwiliad at bum cynnig ar gyfer gwella i'w hsytyried gan yr Awdurdod:

- Parhau i weithredu'r cynigion gwella blaenorol er mwyn cryfhau'r Amcanion Gwella a'r perfformiad cysylltiedig, a'r mesurau a'r dulliau adrodd i ganolbwyntio fwy ar ganlyniadau er mwyn canfod a gwerthuso effaith ei weithgarwch ar gyfer ei gymuned.
- Gweithredu'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn adolygiad SAC o Reoli Gwybodaeth.

- Gweithredu'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn adolygiad SAC o Ddefnyddio Technoleg.
- Ymdrin â'r materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddangosyddion perfformiad o ran sut y caiff 'digwyddiadau dros y ffin' eu trin.
- Ymdrin â'r awgrymiadau a wnaed yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig o ran adrodd canfyddiadau Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio.

Roedd dau o'r argymhellion yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn ymwneud ag adolygiadau thematig penodol a gwblhawyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn.

<u>Rheoli Gwybodaeth</u>
Roedd gan Swyddfa Archwilio Cymru ddiddordeb mewn gwybod a oedd dull yr Awdurdod o ymdrin â rheoli gwybodaeth yn rhoi cefnogaeth gadarnhaol i welliannau.

Daeth yr Archwilydd i'r casgliad fod dull yr Awdurdod o ymdrin â rheoli gwybodoaeth yn wir yn cefnogi gwelliannau, a'i fod yn ymwybodol ar y cyfan o'r materion y mae angen iddo fynd i'r afael â nhw. Fe wnaethant ganfod bod rhai gwendidau mewn llywodraethu a pherfformiad yr oeddent o'r farn y gallai rhoi'r Awdurdod mewn perygl. Wedi dweud hynny, ystyrid bod perfformiad yn gadarn yn gyffredinol, er bod lle i wella, roedd y rhain eisoes yn yr arfaeth neu heb fod yn ddigon pwysig i olygu camau brys.

Gwnaed saith o argymhellion, sef y dylai'r Awdurdod:
- adolygu'r Strategaeth TGCh/Gwybodaeth i'w chael yn gyfoes â mentrau cenedlaethol a lleol; sicrhau sylw cynhwysfawr i faterion rheoli gwybodaeth.
- cyflwyno swyddogaeth Fforwm Diogelwch Gwybodaeth dan gadeiryddiaeth/gyda phresenoldeb yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth, sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac sydd â cyfrifoldeb corfforaethol am faterion gwybodaeth yn arbennig; sefydlu safonau a pholisïau; monitro cydymffurfiaeth â safonau a pholisïau; hyfforddiant ar reoli gwybodaeth; dysgu o ganlyniad i ddigwyddiadau a phroblemau'n ymwneud â gwybodaeth, a mynd i'r afael â nhw; a rheoli risg gwybodaeth.
- datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i'r holl staff er mwyn sichrau y glal ddangos bod cyfrifoldeb am faterion gwybodaeth wedi cael ei raeadru trwy'r Awdurdod.
- mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan yr adolygiad diweddar gan Archwilio Mewnol o Ddiogelwch TG; mae'r adolygiad hwn yn llwyr gefnogi'r argymhellion.
- sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer reoli gwybodaeth electronig oes gyflawn, gan gynnwys e-bost.
- cael llywodraethu gwybodaeth weinyddol i gyd-fynd â'r trefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu gwybodaeth weithredol
- sicrhau bod digon o ddata yn cael ei gadw y tu allan i'r cyfyngiad naw milltir er mwyn adfer gwybodaeth y gwasanaeth yn llwyr petai trychineb.

Defnyddio Technoleg

Roedd gan Swyddfa Archwilio Cymru ddiddordeb mewn gwybod a oedd trefniadau'r Awdurdod ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliannau parhaus.

Daeth yr Archwilwyr i'r casgliad bod trefniadau'r Awdurdod yn wir yn debygol o gefnogi gwelliannau parhaus, a'i fod yn deall sut y gallai technoleg ei gynorthwyo i sicrhau'r defnydd cynaliadwy ac effeithiol o dechnoleg, cyflwyno arbedion a thrawsnewid y modd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno, ond bod angen iddo sicrhau bod ganddo'r gallu o ran adnoddau technegol a sgiliau i gyflwyno ei gynlluniau heb effeithio ar ansawdd gwasanaeth.

Gwnaed pum argymhelliad, sef y dylai'r Awdurdod:

- ddatblygu strategaeth TGCh newydd pum mlynedd i gefnogi ei ofynion yn y presennol a'r dyfodol a ganfuwyd trwy gysylltu ag ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol y gwasanaeth
- dogfennu, cyhoeddi a hyrwyddo safonau a pholisïau ar safonau technoleg.
- sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r gallu TGCh i gefnogi a datblygu technoleg heb effeithio'n andwyol ar ansawdd y gwasanaeth.
- defnyddio technoleg i wneud y mwyaf a safoni prosesau a gweithdrefnau busnes
- rhoi trefniadau yn eu lle i fonitro a mesur pa mor effeithiol a beth yw effaith technoleg a bodlonrwydd defnyddwyr y gwasanaeth

Bydd diweddariad ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn yn y ddogfen Asesiad o Berfformiad yr Awdurdod a gyhoeddir ym mis Hydref 2013.

# ADRAN 5

## GWYBODAETH ARALL

### MANYLION CYSWLLT

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad post: | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0JJ |
| Ffôn: | 01745 535250 |
| Gwefan: | www.gwastan-gogcymru.org.uk |

### GWYBODAETH YCHWANEGOL

- Daeth y **Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004** i rym yn Hydref 2004, gan ddod yn lle'r hen Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 1947 yng Nghymru a Lloegr.
  Mae'n egluro dyletswyddau a phwerau Awdurdodau Tân ac Achub i:
  - Hybu diogelwch tân
  - Ymladd tanau
  - Diogelu pobl ac eiddo rhag tanau
  - Achub pobl o ddamweiniau ar y ffyrdd
  - Ymateb i risgiau penodol eraill, megis digwyddiadau cemegol
  - Ymateb i argyfyngau ar raddfa fawr, megis ymosodiadau terfysgol

- Cafodd **Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2012 Ymlaen** ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012, gan ddod yn lle Fframwaith 2008-11. Mae'r ddogfen hon yn nodi gwledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

- Daeth **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** i rym ar 1af Ebrill 2010. Roedd yn creu cyfundrefn statudol a oedd yn integreiddio gwelliannau tymor byr ar gyfer gwasanaethau lleol a chynllunio cymunedol ar gyfer y tymor hir. Cyhoeddwyd canllawiau penodol ynglŷn â'r elfen wella (Rhan 1) ar gyfer gwasanaethau tân ac achubs gan y Cynulliad ym mis Mai 2010.

## GWYBODAETH

- Daeth **Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012** i rym ar Fai 21ain 2012. It requires fire and rescue awdurdodau to publish their improvement plan as soon as rheswmably practicable after 31 December in the blwyddyn prior to the financial blwyddyn to which the improvement plan relates.

- Daeth y **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** i rym yn Hydref 2006, gan ddod yn lle 70 o ddarnau o ddeddfwriaeth ar ddiogelwch tân. Mae'n gymwys i bob eiddo annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys rhannau cyffredin blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Roedd hefyd yn cael gwared ar yr angen i fusnesau gael tystysgrifau tân, ac yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y sawl sy'n gyfrifol am y safle i ymdrin â diogelwch tân ar y safle hwnnw.

- Roedd **Deddf Cydraddoldeb2010** yn dod yn lle 100 o ddarnau o ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb. Daeth y Ddyletswydd Gyffredinol a'r dyletswyddau penodol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru i rym yn Ebrill 2011. Roedd gan gyrff a restrwyd (gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub) hyd at Ebrill 2012 i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol.

- Derbyniodd **Deddf Argyfyngau Sifil 2004** gydsyniad brenhinol ym mis Hydref 2004. Mae'n darparu un fframwaith ar gyfer amddiffyniad sifili argyfyngau mawr sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol, yr amgylchedd neu i ddiogelwch. Mae gwasanaethau tân ac achub yn ymatebwyr 'Categori 1' dan y ddeddf hon.

- **Cangen Tân a'r Lluoedd Arfog yn Llywodraeth Cymru**
  Cafodd y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch yng Nghymru ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 10 Tachwedd 2004. Mae is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru wedi ei lleoli yn Rhydycar, Merthyr Tudful CF48 1UZ.
  http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/diogelwch/?lang=cy

- **Yr Ymgynghorydd Tân ac Achub**
  Mae deiliad y swydd yn atebol i Gyfarwyddwr Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol, ac mae'n cynghori Gweinidogion Cymru am faterion tân ac achub.

- **Swyddfa Archwilio Cymru**
  Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiadau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol y mae gofyn iddo asesu pa mor debygol yw'r Awdurdod o barhau i wella, a ph'un ai yw'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau ac yn gweithredu'n unol â'r canllawiau perthnasol. Mae Archwilwyr hefyd yn gweithio ag awdurdodau tân trwy Gymru i gyflwyno rhaglen o archwiliadau ariannol a gwerth am arian.
  http://www.wao.gov.uk/

- **Trwydded i Atgynghyrchu Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus**
  Mae deunydd sydd â hawlfraint y Goron yn cael eu atgynghyrchu yn y ddogfen hon dan Drwydded Rhif C2010002320.

## YMYRRYD OS OES METHIANT NEU FETHIANT POSIBL I GYDYMFFURFIO

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau ymyrryd:

- dan adran 22 o **Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achubs 2004** os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu'n unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 ar brotocol ymyrryd yn gymwys.
- dan adran 29 o **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009**, os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, cydymffurfio â'r Mesur. Fodd bynnag, ymhob amgylchiad heblaw'r rhai mwyaf eithriad, ni chaiff Gweinidogion Cymru ond ymyrryd ar ôl iddynt gynnig cefnogaeth wirfoddol i'r Awdurdod dan adran 28 o'r Mesur.

**Y CAMAU NESAF MEWN PERTHYNAS Â CHYDYMFFURFIO Â MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2009**

| Dyddiad | Cam gweithredu |
|---|---|
| Erbyn 31 Hydref 2012 | Yr Awdurdod yn cyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad ei hun yn 2011-12 a'r dangosyddion perfformiad statudol am y flwyddyn honno. |
| Hydref 2012 i Ionawr 2013 | Cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Amcanion Gwella drafft ar gyfer 2013-14 |
| Erbyn Mawrth 2013 | Yr Awdurdod yn cyhoeddi ei Gynllun Gwella ar gyfer 2013-14 |
| Erbyn Mawrth 2013 | Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru sy'n crynhoi ac yn adrodd am yr holl waith a wnaed ganddo, gan gynnwys ei archwiliad o asesiad yr Awdurdod ei hun o'i berfformiad yn 2011-12 a'r dangosyddion perfformiad statudol am y flwyddyn honno. www.wao.gov.uk |

## YMGYNGHORIADAU

| | Ymgynghoriad | Cyhoeddi | Erbyn blwyddyn |
|---|---|---|---|
| Cynllun Lleihau Risg llawn | Haf 2006 | Hydref 2006 | 2007-08 ymlaen |
| Cynllun Gweithredu Blynyddol | Haf 2007 | Hydref 2007 | 2008-09 |
| Cynllun Gweithredu Blynyddol | Haf 2008 | Hydref 2008 | 2009-10 |
| Cynllun Gweithredu Blynyddol | Haf 2008 | Hydref 2009 | 2010-11 |
| Cynllun Lleihau Risg llawn (egwyddorion) | Haf 2009 | | |
| Cynllun i Leihau Risg a Gwella llawn (manwl) | Haf 2010 | Hydref 2010 | 2011-12 |
| Cynllun Gweithredu Blynyddol | Haf 2011 | Hydref 2011 | 2012-13 |
| Amcanion Gwella 2013-14 a pharatoadau amlinellol ar gyfer 2014-15 | Haf 2012 | Mawrth 2013 | 2013-14 |

**SUT Y GALL PAWB GYFRANNU AT AMCANION GWELLA'R DYFODOL**

Mae Adrannau 5 a 6 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ymgynghori'n eang cyn dod i benderfyniadau terfynol ynglŷn â gwella.

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai awdurdodau ymgynghori â dinasyddion, busnesau lleol, partneriaid cynllunio cymunedol, awdurdodau tân ac achub eraill, a phartneriaid eraill cyfredol a phosibl.

Bydd yr Awdurdod yn cynnal ymgynghoriad bob haf pan fydd yn cyhoeddi ei amcanion arfaethedig ar gyfer lleihau risg a gwella yn y flwyddyn ganlynol, a bydd yn gwahodd sylwadau gan bawb sydd â diddordeb yn yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Rhoddir ystyriaeth i bob sylw cyn cyhoeddi cynlluniau'r flwyddyn ganlynol yn derfynol.

# ADRAN 6

## CRYNODEB O WYBODAETH AM BERFFORMIAD

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| **DANGOSYDDION STRATEGOL CENEDLAETHOL** | | | | | |
| | | | | | |
| RRC/S/001i N Cyfanswm nifer y tanau | 3,844[10] | 3,389 | 3,370 | 3,297 | 3,165 |
| RRC/S/001i D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 10,000 o bobl** | **54.83** | **49.99** | **49.71** | **48.57** | **46.65** |
| | | | | | |
| RRC/S/001ii N Cyfanswm nifer yr holl brif danau | 1,564 | 1,504 | 1,485 | 1,346 | 1,299 |
| RRC/S/001ii D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 10,000 o bobl** | **23.15** | **22.18** | **21.90** | **19.83** | **19.15** |
| | | | | | |
| RRC/S/001iii N Cyfanswm nifer y tanau damweiniol mewn anheddau | 525 | 485 | 479 | 469 | 474 |
| RRC/S/001iii D Cyfanswm nifer yr anheddau yn ardal yr ATA | 301,063 | 303,377 | 304,412 | 305,583 | 317,051 |
| **am bob 10,000 o anheddau** | **17.47** | **15.99** | **15.74** | **15.35** | **14.95** |
| | | | | | |
| RRC/S/001iv N Cyfanswm nifer yr holl danau bwriadol | 1,840 | 1,545 | 1,536 | 1,438 | 1,370 |
| RRC/S/001iv D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 10,000 o bobl** | **27.24** | **22.79** | **22.66** | **21.19** | **20.19** |
| | | | | | |

[10] Diwygwyd ar ôl yr archwiliad post audit

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| RRC/S/002i N Cyfanswm nifer y marwolaethau tân | 10 | 4 | 8 | 10 | 8 |
| RRC/S/002i D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **1.48** | **0.58** | **1.17** | **1.47** | **1.18** |
| | | | | | |
| RRC/S/002ii N Cyfanswm nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol | 8 | 4 | 6 | 10 | 8 |
| RRC/S/002ii D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **1.18** | **0.58** | **0.88** | **1.47** | **1.18** |
| | | | | | |
| RRC/S/002iii N Cyfanswm nifer y marwolaethau a achoswyd gan danau bwriadol | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| RRC/S/002iii D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **0.30** | **0.00** | **0.29** | **0.00** | **0.00** |
| | | | | | |
| RRC/S/002iv N Cyfanswm nifer yr anafiadau tân (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) | 80 | 111 | 69 | 97 | 64 |
| RRC/S/002iv D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **11.84** | **16.37** | **10.17** | **14.29** | **9.43** |
| | | | | | |
| RRC/S/002v N Cyfanswm nifer yr anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau damweiniol | 58 | 103 | 57 | 86 | 56 |
| RRC/S/002v D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **8.59** | **15.19** | **8.41** | **12.67** | **8.25** |
| | | | | | |
| RRC/S/002vi N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau bwriadol | 22 | 8 | 12 | 11 | 8 |
| RRC/S/002vi D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **3.26** | **1.17** | **1.76** | **1.62** | **1.18** |
| | | | | | |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| RRC/S/003 N Nifer y tanau mewn eiddo annomestig | 248 | 224 | 256 | 229 | 215 |
| RRC/S/003 D Nifer yr eiddo annomestig yn ardal yr ATA | 27,050 | 27,055 | 27,284 | 27,419 | 27,484 |
| **am bob 1,000 o bobl** | **9.17** | **8.28** | **9.38** | **8.35** | **7.82** |
| | | | | | |
| RRC/S/004iv Nifer y cartrefi lle bu tân lle cynhaliwyd ADTC a/neu weithgarwch cysylltiedig i leihau risg yn ystod y ddwy flynedd cyn y tân. ***(Cyfeirnod RRC/C/006 cyn 2011/12)*** | - | 71 | 129 | 134 | 164 |
| | | | | | |
| **DANGOSYDDION CRAIDD** | | | | | |
| RRC/C/001i N Marwolaethau oherwydd tanau bwriadol mewn anheddau | 7 | 4 | 6 | 10 | 6 |
| RRC/C/001i D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **1.04** | **0.59** | **0.88** | **1.47** | **0.88** |
| | | | | | |
| RRC/C/001ii1 N Marwolaethau a achoswyd gan danau bwriadol mewn anheddau | 1 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| RRC/C/001ii D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **0.15** | **0.00** | **0.29** | **0.00** | **0.00** |
| | | | | | |
| RRC/C/001iii N Marwolaethau a achoswyd gan danau damweiniol mewn eiddo annomestig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| RRC/C/001iii D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| | | | | | |
| RRC/C/001iv N Marwolaethau a achoswyd gan danau bwriadol mewn eiddo annomestig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| RRC/C/001iv D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |
| | | | | | |
| RRC/C/001v N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau damweiniol mewn anheddau | 53 | 66 | 43 | 53 | 34 |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| RRC/C/001v D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **7.70** | **9.73** | **6.34** | **7.81** | **5.01** |
| | | | | | |
| RRC/C/001vi N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau bwriadol mewn anheddau | 17 | 4 | 4 | 9 | 4 |
| RRC/C/001vi D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **2.52** | **0.59** | **0.59** | **1.33** | **0.59** |
| | | | | | |
| RRC/C/001vii N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau bwriadol mewn eiddo annomestig | 2 | 7 | 7 | 14 | 3 |
| RRC/C/001vii D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **0.30** | **1.03** | **1.03** | **2.06** | **0.44** |
| | | | | | |
| RRC/C/001viii N Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) oherwydd tanau bwriadol mewn eiddo annomestig | 2 | 0 | 3 | 1 | 0 |
| RRC/C/001viii D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 100,000 o bobl** | **0.30** | **0.00** | **0.44** | **0.15** | **0.00** |
| | | | | | |
| RRC/C/002i N Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus a dderbyniwyd | 652 | 565 | 563 | 491 | 538 |
| RRC/C/002i D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 1,000 o bobl** | **0.97** | **0.83** | **0.83** | **0.72** | **0.79** |
| | | | | | |
| RRC/C/002ii N Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus nad aethpwyd atynt | 498 | 399 | 423 | 373 | 405 |
| RRC/C/002ii D Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus a dderbyniwyd | 652 | 565 | 563 | 491 | 538 |
| **% y cyfanswm nad aethpwyd atynt** | **76.38%** | **70.62%** | **75.13%** | **75.97%** | **75.28%** |
| | | | | | |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| RRC/C/002iii N Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus | 154 | 166 | 140 | 118 | 133 |
| RRC/C/002iii D Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus a dderbyniwyd | 652 | 565 | 563 | 491 | 538 |
| **% y cyfanswm nad aethpwyd atynt** | **23.62%** | **29.38%** | **24.87%** | **24.03%** | **24.72%** |
| | | | | | |
| RRC/C/003 N Cyfanswm nifer y galwadau diangen a achoswyd gan systemau awtomatig a larymau mewn eiddo annomestig | 2,020 | 1,707 | 1,646 | 1,322 | 1,411 |
| RRC/C/003 D Nifer yr eiddo annomestig o fewn ardal yr ATA | 27,050 | 27,055 | 27,284 | 27,419 | 27,484 |
| **am bob 1,000 eiddo annomestig** | **74.68** | **63.09** | **60.33** | **48.21** | **51.34** |
| | | | | | |
| RRC/C/004i N Nifer y prif danau bwriadol | 526 | 540 | 482 | 373 | 367 |
| RRC/C/004i D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 10,000 o bobl** | **7.80** | **7.96** | **7.11** | **5.50** | **5.41** |
| | | | | | |
| RRCC/004ii N Nifer y tanau eilaidd bwriadol | 1,314 | 1,005 | 1,054 | 1,065 | 1,003 |
| RRC/C/004ii D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 10,000 o bobl** | **19.44** | **14.82** | **15.55** | **15.69** | **14.78** |
| | | | | | |
| RRCC/004iii N Nifer y tanau bwriadol mewn anheddau ***(gofyniad data newydd ar gyfer 2011/12)*** | *71* | *67* | *66* | *66* | 56 |
| RRCC/004iii D Nifer yr anheddau yn ardal yr ATA ***(gofyniad data newydd ar gyfer 2011/12)*** | *301,063* | *304,412* | *304,412* | *305,583* | 317,051 |
| **am bob 10,000 anheddau** ***(gofyniad data newydd ar gyfer 2011/12)*** | ***2.36*** | ***2.20*** | ***2.17*** | ***2.16*** | **1.77** |
| | | | | | |
| RRC/C/005i N Tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt lle roedd larwm mwg a/neu offer arall i ganfod tân wedi canu | 375 | 337 | 285 | 329 | 321 |
| RRC/C/005i D Cyfanswm nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | 595 | 551 | 545 | 535 | 530 |
| **% lle canodd y larwm** | **63.03%** | **61.16%** | **52.29%** | **61.50%** | **60.57%** |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| RRC/C/005ii N Tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt lle roedd larwm mwg a/neu offer arall i ganfod tân yno ond heb ganu | 79 | 79 | 123 | 118 | 129 |
| RRC/C/005ii D Cyfanswm nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | 595 | 551 | 545 | 535 | 530 |
| **% lle roedd larwm yno ond heb ganu** | **13.28%** | **14.34%** | **22.57%** | **22.06%** | **24.34%** |
| | | | | | |
| RRC/C/005iii N Tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt lle nad oedd larwm mwg a/neu offer arall i ganfod tân | 141 | 135 | 137 | 88 | 80 |
| RRC/C/005iii D Cyfanswm nifer y tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt | 595 | 551 | 545 | 535 | 530 |
| **% lle nad oedd larwm yno** | **23.70%** | **24.50%** | **25.14%** | **16.45%** | **15.09%** |

**ERAILL**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CHR/ C/001i N Nifer aelodau unigol o'r ochr weithredol yn gweithio ar y systemau amser cyflawn a'r ddyletswydd ar gael yn ôl y galw sy'n eu categoreiddio eu hunain yn rhywun ag anabledd | 16 | 14 | 15 | 13 | 19 |
| CHR/ C/001i D Cyfanswm nifer yr aelodau unigol o'r ochr weithredol yn gweithio ar y systema amser cyflawn a'r ddyletswydd ar gael yn ôl y galw | 896 | 869 | 850 | 871 | 798 |
| **% ag anabledd** | **1.79%** | **1.61%** | **1.76%** | **1.50%** | **2.38%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/001ii N Nifer yr aelodau unigol o'r ystafell reoli a'r ochr anweithredol sy'n eu categoreiddio eu hunain yn rhywun ag anabledd | 8 | 8 | 9 | 8 | 10 |
| CHR/ C/001ii D Cyfanswm nifer yr aelodau unigol o'r ystafell reoli a'r ochr anweithredol | 167 | 174 | 184 | 187 | 185 |
| **% ag anabledd** | **4.79%** | **4.60%** | **4.89%** | **4.30%** | **5.41%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/001iii N Cyfanswm nifer y bobl rhwng 18 a 64 mlwydd oed sy'n eu categoreiddio eu hunain fel rhai ag anabledd yn ardal yr ATA | 68,848 | 68,848 | 68,848 | 68,848 | 68,848 |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| CHR/ C/001iii D Cyfanswm nifer y bobl rhwng 18 a 64 mlwydd oed yn ardal yr ATA | 391,153 | 391,153 | 391,153 | 391,153 | 39,153 |
| **% ag anabledd** | **17.60%** | **17.60%** | **17.60%** | **17.60%** | **17.60%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/002i N Nifer yr aelodau unigol o'r staff sy'n eu categoreiddio eu hunain fel rhai'n perthyn i grŵp ethnig lleiafrifol | 9 | 10 | 8 | 6 | 12 |
| CHR/ C/002i D Cyfanswm nifer yr aelodau unigol o staff | 1,063 | 1,043 | 1,034 | 1,058 | 983 |
| **% ethnig lleiafrifol** | **0.85%** | **0.96%** | **0.77%** | **0.60%** | **1.22%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/002ii N Cyfanswm nifer y bobl o leiafrifoed ethnig rhwng 18 a 64 mlwydd oed yn ardal yr ATA | 3,930 | 3,930 | 3,930 | 3,930 | 3,930 |
| CHR/ C/002ii D Cyfanswm nifer y bobl rhwng 18 a 64 mlwydd oed yn ardal yr ATA | 394,760 | 394,760 | 394,760 | 394,760 | 394,760 |
| **% ethnig lleiafrifol** | **1.00%** | **1.00%** | **1.00%** | **1.00%** | **1.00%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/003 N Cyfanswm nifer y diffoddwragedd tân unigol a gyflogir | 32 | 33 | 37 | 45 | 42 |
| CHR/ C/003 D Nifer y diffoddwyr tân unigol a gyflogir (dynion a merched) | 896 | 869 | 850 | 871 | 798 |
| **% y merched** | **3.57%** | **3.80%** | **4.35%** | **5.20%** | **5.26%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/004i N Cyfanswm nifer y dyddiau/shifftiau gwaith cyfwerth ag amser llawn a gollwyd ohewydd absenoldeb salwch gan yr holl staff (ac eithrio staff y system dyletswydd ar gael yn ôl y galw) | 3,594 | 3,755 | 4,023 | 3,259 | 3,969 |
| CHR/ C/004i D Nifer yr holl staff ar gyfartaledd (ac eithrio'r system ar gael yn ôl y galw) fel cyfwerth ag amser llawn | 441.70 | 450.00 | 458.55 | 459.00 | 445.91 |
| **dyddiau/shifdtiau a gollwyd am bob person** | **8.14** | **8.34** | **8.77** | **7.10** | **8.90** |
| | | | | | |
| CHR/ C/004ii N Cyfanswm nifer y dyddiau/shifftiau gwaith cyfwerth ag amser llawn a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch gan staff llifrai amser cyflawn | 2,310 | 2,520 | 2,241 | 1,963 | 2,261 |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| CHR/ C/004ii D Nifer y staff lifai amser cyflawn ar gyfartaledd fel cyfwerth ag amser llawn | 299 | 298 | 295 | 290 | 277.50 |
| **dyddiau/shifftiau a gollwyd am bob person** | **7.73** | **8.46** | **7.60** | **6.80** | **8.15** |
| | | | | | |
| CHR/ C/004iii N Cyfanswm nifer y dyddiau/shifftiau gwaith cyfwerth ag amser llawn a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch gan staff yr ystafell reoli | 149 | 145 | 444 | 227 | 276 |
| CHR/ C/004iii D Nifer staff yr ystafell reoli fel cyfwerth ag amser llawn | 30.82 | 30.82 | 30.22 | 28.57 | 28.23 |
| **dyddiau/shifftiau a gollwyd am bob person** | **4.83** | **4.70** | **14.69** | **7.90** | **9.78** |
| | | | | | |
| CHR/ C/004iv N Cyfanswm nifer y dyddiau/shifftiau gwaith cyfwerth ag amser llawn a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch gan staff yr ochr anweithredol | 1,135 | 1,090 | 1,338 | 1,069 | 1,432 |
| CHR/ C/004iv D Nifer staff yr ochr anweithredol ar gyfartaledd fel cyfwerth ag amser llawn | 111.8 | 121.16 | 133.33 | 141 | 140.18 |
| **dyddiau/shifftiau a gollwyd am bob person** | **10.15** | **9.00** | **10.04** | **7.60** | **10.22** |
| | | | | | |
| CHR/ C/005i N Cyfanswm nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd | 4 | 3 | 6 | 11 | 11 |
| CHR/ C/005i D Nifer ar gyfartaledd yr holl weithwyr yn y GTA | 1,050.5 | 1,053 | 1,038.50 | 1,046 | 1,020.50 |
| **fel % o'r holl weithlu** | **0.38%** | **0.28%** | **0.58%** | **1.10%** | **1.08%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/005ii N Nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd yn yr ochr weithredol amser cyflawn | 0 | 1 | 0 | 4 | 4 |
| CHR/ C/005ii D Nifer y staff amser cyflawn ar yr ochr weithredol ar gyfartaledd | 299 | 298 | 295 | 289.5 | 277.50 |
| **fel % o'r holl weithlu amser cyflawn** | **0.00%** | **0.34%** | **0.00%** | **1.40%** | **1.44%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/005iii N Nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd yn y system ar gael yn ôl y galw | 3 | 2 | 6 | 6 | 6 |
| CHR/ C/005iii D Nifer y staff yn y systtem ar gael yn ôl y galw | 587 | 584.5 | 564.5 | 571.0 | 557.0 |
| **fel % o'r holl weithlu ar gael yn ôl y galw** | **0.51%** | **0.34%** | **1.06%** | **1.05%** | **1.08%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/005iv N Nifer staff yr ystafell reoli sy'n ymddeol ar sail afiechyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |

| Blwyddyn | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| CHR/ C/005iv D Nifer staff yr ystafell reoli ar gyfartaledd | 32.5 | 33 | 33.5 | 33 | 32 |
| **fel % o holl weithlu'r Ystafell Reoli** | **0.00%** | **0.00%** | **0.00%** | **0.00%** | **3.13%** |
| | | | | | |
| CHR/ C/005v N Nifer staff yr ochr anweithredol sy'n ymddeol ar sail afiechyd | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| CHR/ C/005v D Nifer staff yr ochr anweithredol ar gyfartaledd | 132 | 137.5 | 145.5 | 152.5 | 154.00 |
| **fel % o'r holl weithlu nad ydynt ar yr ochr weithredol** | **0.76%** | **0.00%** | **0.00%** | **0.70%** | **0.00%** |
| | | | | | |
| **LLEOL** | | | | | |
| | | | | | |
| Lleol N Cyfanswm nifer y tanau eilaidd yr aethpwyd atynt | 2,000 | 1,509 | 1,538 | 1,626[11] | 1,613 |
| Lleol D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 10,000 o bobl** | | **22.26** | **22.69** | **23.94** | **23.77** |
| | | | | | |
| Lleol N Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus yr aethpwyd atynt | 154 | 166 | 140 | 118 | 133 |
| Lleol D Poblogaeth ardal yr ATA | 675,563 | 677,971 | 677,971 | 678,750 | 678,461 |
| **am bob 1,000 o bobl** | **0.23** | **0.25** | **0.21** | **0.17** | **0.20** |
| | | | | | |
| **Lleol Cyfanswm nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gynhaliwyd** | **26,504** | **31,180** | **32,802** | **36,905** | **28,472** |
| | | | | | |
| **Lleol Canran y tanau damweiniol mewn anheddau a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd** | **93%** | **92%** | **93%** | **91%** | **92%** |

[11] Diwygiwyd ar ôl yr archwiliad